# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI**

Dyddiad ac Amser

**10.30 y.b., DYDD IAU, 12FED RHAGFYR, 2024**

**(NODER: CYNHELIR CYFARFOD BRIFFIO I'R AELODAU AM 10:00YB)**

Lleoliad

**Siambr Hywel Dda, Swyddfeydd y Cyngor Caernarfon ac yn rhithiol drwy Zoom**

*** NODER ***

**Bydd y cyfarfod yn cael ei we-ddarlledu**

**https://gwynedd.public-i.tv/core/l/cy_GB/portal/home**

Pwynt Cyswllt

**Eirian Roberts**

**01286 679018**

**eirianroberts3@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd Dydd Mercher, 4 Rhagfyr 2024)

# PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI

## AELODAETH (18)

## Plaid Cymru (12)

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Jina Gwyrfai | Iwan Huws |
| Dawn Lynne Jones | Dewi Jones |
| Gareth Tudor Jones | Olaf Cai Larsen |
| Gwynfor Owen | Llio Elenid Owen |
| John Pughe | Huw Rowlands |
| Rhys Tudur | Sian Williams |

## Annibynnol (6)

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Elwyn Jones | Gwilym Jones |
| Beth Lawton | Dewi Owen |
| John Pughe Roberts | Richard Glyn Roberts |

## Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

## Aelodau Eraill a Wahoddwyd

## AELODAU CYFETHOLEDIG:

**Hefo pleidlais ar faterion addysg yn unig**

| | |
|---|---|
| [sedd wag] | Eglwys yng Nghymru |
| Colette Owen | Yr Eglwys Gatholig |
| [sedd wag] | Cynrychiolydd Rhieni/Llywodraethwyr Meirionnydd |
| Karen Vaughan Jones | Cynrychiolydd Rhieni/Llywodraethwyr Dwyfor |
| Sharon Roberts | Cynrychiolydd Rhieni/Llywodraethwyr Arfon |

**Heb Bleidlais:**

| | |
|---|---|
| Elise Poulter | NEU |
| Gwilym Jones | NASUWT |

# R H A G L E N

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 4. COFNODION

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor a gynhaliwyd ar 17 Hydref, 2024 fel rhai cywir.

## 5. CYLLIDEBAU REFENIW YSGOLION

Cyflwyno adroddiad ar yr uchod.

## 6. CLUDIANT ADDYSG

Cyflwyno adroddiad ar yr uchod.

## 7. BLAENRAGLEN DDIWYGIEDIG Y PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI 2024/25

Mabwysiadu rhaglen waith diwygiedig ar gyfer 2024/25.

**PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI**
**17/10/24**

**Presenoldeb:**

**Y Cynghorwyr:** Y Cynghorydd Cai Larsen (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Rhys Tudur (Is-gadeirydd)

Y Cynghorwyr:- Jina Gwyrfai, Iwan Huws, Dewi Jones, Elwyn Jones, Gareth Tudor Jones, Gwilym Jones, Beth Lawton, Dewi Owen, John Pughe Roberts, Huw Llwyd Rowlands a Sian Williams.

**Aelodau Cyfetholedig:** Colette Owen (Yr Eglwys Gatholig), Sharon Roberts (Cynrychiolydd Rhieni / Llywodraethwyr Arfon), Elise Poulter (NEU) a Gwilym Jones (NASUWT).

**Swyddogion yn bresennol:** Bethan Adams (Ymgynghorydd Craffu) ac Eirian Roberts (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

**Yn bresennol ar gyfer eitem 6:-**. Gwern ap Rhisiart (Pennaeth Addysg), Ffion Edwards Ellis (Pennaeth Cynorthwyol: Anghenion Addysg Arbennig a Chynhwysiad) ac Ellen Rowlands (Rheolwr Cynhwysiad).

**Yn bresennol ar gyfer eitem 7:-** Gwern ap Rhisiart (Pennaeth Addysg) a Sioned Owen (Rheolwr Gwasanaeth Blynyddoedd Cynnar).

**Yn bresennol ar gyfer eitem 8: -** Y Cynghorydd Menna Trenholme (Aelod Cabinet Gwasanaethau Corfforaethol), Catrin Love (Pennaeth Cynorthwyol Gwasanaethau Corfforaethol) a Gail Warrington (Rheolwr Iechyd Diogelwch a Llesiant).

**Yn bresennol ar gyfer eitem 9: -** Rhys Glyn (Pennaeth Cyfundrefn Addysg Drochi Gwynedd).

Cyfeiriodd y Cadeirydd at y newyddion oedd newydd dorri bod Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd Dyfrig Siencyn, wedi ymddiswyddo. Nododd yr arferai'r Arweinydd fynychu cyfarfodydd y pwyllgor hwn yn ei rôl fel Cadeirydd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, a diolchodd iddo am ei waith. Nododd ymhellach fod y Cynghorydd Beca Brown, a arferai fynychu'r pwyllgor hwn yn rheolaidd yn ei rôl fel Aelod Cabinet Addysg, wedi ymddiswyddo hefyd, a diolchodd iddi hithau am ei gwaith, ynghyd â'r Cynghorydd Elin Walker Jones, oedd wedi bwriadu bod yn bresennol yn y cyfarfod hwn yn ei rôl fel Aelod Cabinet Plant a Theuluoedd, ond a oedd bellach wedi ymddiswyddo hefyd.

## 1. ETHOL IS-GADEIRYDD

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Rhys Tudur yn Is-gadeirydd y pwyllgor hwn am 2024/25.**

## 2. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Dawn Lynne Jones, Gwynfor Owen, Llio Elenid Owen a Richard Glyn Roberts.

**3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

**4. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi.

**5. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 18 Gorffennaf, 2024 fel rhai cywir.

**6. ADRODDIAD CYNNYDD AR YMATEB I ARGYMHELLION ESTYN**

Croesawyd y Pennaeth Addysg a'r swyddogion i'r cyfarfod.

Cyflwynwyd – adroddiad yn manylu ar gynnydd yr Adran Addysg mewn ymateb i argymhellion Adroddiad Estyn ar wasanaethau addysg yng Nghyngor Gwynedd (Mehefin 2023) mewn perthynas â phresenoldeb ac ymddygiad disgyblion yn ysgolion y sir.

Rhoddodd y Pennaeth Addysg grynodeb byr o gynnwys yr adroddiad gan nodi y bwriedid adrodd i'r pwyllgor ymhellach ymlaen ar gynnydd mewn ymateb i drydydd argymhelliad Estyn mewn perthynas â symud ymlaen ar flaenoriaethau strategol yr Adran.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau.

Gan gyfeirio at baragraff 4.3 o'r adroddiad, holwyd a oedd Grant Presenoldeb Llywodraeth Cymru i dargedu gwella presenoldeb unigolion penodol o fewn ysgolion yn debygol o barhau. Mewn ymateb, nodwyd:-

- O safbwynt grantiau Llywodraeth Cymru, na roddid sicrwydd ymhellach na blwyddyn ar y tro. Fodd bynnag, gan fod y trafodaethau'n genedlaethol gyda'r Llywodraeth yn amlygu bod hon yn broblem genedlaethol a'i bod yn flaenoriaeth genedlaethol i gael plant i'r ysgol, roedd yn annhebygol iawn y byddai'r grant yma'n dirwyn i ben ymhen blwyddyn.
- Er hynny, roedd yn ofynnol i'r Adran baratoi ar gyfer y posibilrwydd y gallai'r grant ddod i ben, ac roedd y prif drafodaethau ynghylch hynny yn canolbwyntio ar gapasiti'r tîm a sut mae ysgolion yn ymateb i ddiffyg presenoldeb.
- Nad oedd modd cyfarch diffyg presenoldeb ar y raddfa bresennol gyda thîm o 10 o swyddogion lles, a byddai'n rhaid i bawb weithio fel un i egluro wrth yr ysgolion beth yw eu dyletswyddau fel bod modd wedyn i'r Tîm Llesiant weithio gyda charfan benodol o blant sydd â'u presenoldeb islaw hicyn penodol.

Holwyd beth oedd y prif reswm dros y lefelau presenoldeb isel yn yr ysgolion. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Mai salwch oedd yn cael ei adrodd yn bennaf gan ysgolion. Yn dilyn y cyfnod clo, roedd tueddiad gan rieni i gadw plant adref o'r ysgol gyda mân anhwylderau megis annwyd neu gur pen, ac roedd yn anodd iawn i'r Awdurdod a'r ysgolion herio hynny.
- Yr adolygwyd y polisi fel bod modd amlygu'r camau y gall ysgolion eu cymryd i ymateb i salwch, yn enwedig yng nghyswllt absenoldebau parhaus, estynedig

neu reolaidd, a thrwy'r drefn monitro, gellid adnabod patrymau a gyrru swyddog lles i mewn i drafod gyda'r rhieni petai angen.

Awgrymwyd y byddai'n fuddiol petai yna ganllawiau ar gael i gynorthwyo rhieni i ddod i benderfyniad ynglŷn â phryd i gadw plant adref a phryd i'w gyrru i'r ysgol. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod meddylfryd rhieni o ran pryd i gadw plant adref o'r ysgol wedi newid ers Cofid, a bod yna fwy o ymwybyddiaeth bellach o'r posibilrwydd o ledaenu heintiau.
- Bod mwy o bobl yn gweithio o gartref ers Cofid a'i bod yn haws felly i rai rhieni gadw eu plant adref o'r ysgol.
- Ar ddiwedd y dydd, bod hyn yn benderfyniad i'r rhieni ei wneud, ond gallai'r Awdurdod gefnogi'r ysgolion o ran y negeseuon a roddir i rieni i fynd ar ôl hynny.

Nodwyd bod nifer y gwaharddiadau yn Arfon yn sylweddol uwch nag yn y rhannau eraill o'r sir a holwyd a oedd hynny'n batrwm cyffredinol, neu a oedd yna nifer fechan o ysgolion yn Arfon yn gwthio'r ffigwr i fyny? Nodwyd y byddai'n fuddiol gweld y data fesul ysgol er mwyn gweld beth sydd y tu cefn i hyn. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod poblogaeth Arfon yn llawer uwch na Meirionnydd a Dwyfor gyda'i gilydd ac edrychid ar y canran fesul mil o ddisgyblion.
- Bod yr Awdurdod yn tracio 5 ysgol, 4 yn Arfon ac un ym Meirionnydd.

Gan gyfeirio at sylw yn gynharach yn y drafodaeth bod meddylfryd rhieni tuag at yrru plant i'r ysgol wedi newid ers Cofid, holwyd a oedd hynny'n wir o fewn yr ysgol hefyd. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Yn sicr bod yna nerfusrwydd ymysg staff yr ysgolion, nad oedd o bosib' yn bodoli cynt, o ran yr effaith y gall plentyn sâl ei gael arnyn nhw ac ar weddill cymuned yr ysgol.
- Er hynny, bod presenoldeb yn ôl ar frig rhestr blaenoriaethau ysgolion unigol erbyn hyn, gyda'r ysgolion hynny yn dathlu presenoldeb uchel ac yn annog rhieni i yrru eu plant i'r ysgol.
- Y cyrhaeddwyd sefyllfa dipyn gwell erbyn hyn gyda chanran presenoldeb yn cynyddu, er nad mor gyflym ag y dymunid.

Holwyd a oedd lefelau presenoldeb yn codi'n gyflymach yn y sector cynradd neu'r sector uwchradd. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod lefelau presenoldeb yn y sector cynradd yn sylweddol uwch na'r uwchradd ac yn eithaf sefydlog hefyd.
- Y gwelwyd cynnydd bychan yn y sector uwchradd o gymharu â llynedd ond cydnabyddid bod yna lawer mwy o waith i'w wneud ar hyn. Roedd yr Adran yn gweithio'n agos iawn gyda'r ysgolion i flaenoriaethu codi presenoldeb i'r lefel cyn Cofid, ac yn uwch na hynny.
- I allu cynyddu canran presenoldeb y sir, bod rhaid i'r sylw fod ar y trwch o boblogaeth yr ysgolion sydd â chanran presenoldeb o dan 90%, yn hytrach na'r achosion unigol sydd ar efallai 30% neu 40%, gan fod y niferoedd hynny yn fychan a'r unigolion dan sylw yn derbyn cefnogaeth gan y timau lles ayb.
- Bod y Pennaeth Addysg wedi anfon llythyr at holl rieni'r sir yn pwysleisio bod rhaid i bresenoldeb fod yn flaenoriaeth. Roedd yr ymatebion a gafwyd gan rieni yn gymysglyd iawn, ond efallai'n amlygu'r dryswch ymysg rhai rhieni ynglŷn â phwysigrwydd anfon eu plant i'r ysgol. Er hynny, drwyddi draw, roedd pobl yn deall bod rhaid newid gêr o ran presenoldeb, neu fel arall nid yw'r plant am ffynnu yn academaidd.

Croesawyd y ffaith bod ysgolion yn casglu data eithaf trylwyr o ran tracio absenoldeb ac yn ei ddefnyddio i fireinio'r gweithredu sydd ei angen wedyn i godi'r ffigwr presenoldeb. Mewn ymateb, nodwyd bod y defnydd o ddata yn dda mewn ysgolion. Credid, fodd bynnag, bod angen herio mwy ar rieni sy'n cysylltu â'r ysgol i ddweud bod eu plant yn sâl, gan nad oes modd erlyn rhiant ar sail diffyg presenoldeb os yw'r absenoldeb hwnnw wedi'i awdurdodi gan yr ysgol, a dyma'r math o negeseuon sy'n cael eu rhoi drosodd i'r ysgolion bellach.

Nodwyd bod canfyddiad Mrs Caroline Rees, a gomisiynwyd i gynnal arolwg manwl o'r Gwasanaeth Cynhwysiad, yn adleisio argymhelliad Estyn bod angen lleoliadau addas ar gyfer darpariaeth y tu allan i'r ysgol, a holwyd a oedd yna ddiweddariad ar hynny. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod adroddiad Mrs Caroline Rees wedi helpu'r gwasanaeth i greu sylfaen o ran cyfeiriad yn y maes cynhwysiad a'r maes cefnogi ymddygiad, yn enwedig i'r nifer cynyddol o blant sy'n methu ymdopi, neu na ellir eu cynhwyso mewn ysgolion prif lif.
- Mai'r egwyddor sylfaenol yng Ngwynedd yw y dylai plant gael eu cynhwyso o fewn yr ysgolion prif lif, ond ei bod yn her i wneud hynny bob amser, yn enwedig gan fod ymddygiad plant yn dwysau wrth i'r blynyddoedd fynd rhagddynt.
- Bod sefydlu Bwrdd Prosiect yn gam pwysig ymlaen i gael barn penaethiaid ysgolion ar gyfeiriad y Gwasanaeth Cynhwysiad dros y blynyddoedd nesaf, gan mai'r penaethiaid sy'n dod i benderfyniad ynghylch gwahardd unigolion. Gan hynny, roedd yn allweddol bwysig bod y penaethiaid yn rhan o'r datrysiad er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth y tu allan i'r ysgol yn addas i bwrpas.
- Y cyflawnwyd gwaith manwl yn edrych ar arferion da mewn siroedd eraill, ayb, ond gan fod sefyllfa gyllidol yr Adran yn anodd, edrychwyd ar sut y gellid gwneud gwell defnydd o'r cyllid sydd ar gael eisoes i greu model sy'n darparu gwell cefnogaeth am yr un gost. Roedd hynny'n her gan fod gofalu am blant sydd ag anghenion ymddygiadol dwys yn gostus, gyda'r gymhareb staff i blentyn, er enghraifft, yn costio llawer iawn mwy na phetai'r plant hynny mewn ysgol prif lif.
- Mai dymuniad yr Adran oedd gweld cyn lleied â phosib' o ddisgyblion allan o addysg a bod y ddarpariaeth ar eu cyfer yn rhagorol ac yn rhoi gwerth da am arian. Ni ellid darparu ar gyfer cannoedd o blant yn cael eu heithrio o addysg yng Ngwynedd gan fod daearyddiaeth y sir yn golygu na ellid darparu un ganolfan yn y canol ar gyfer pawb.

Croesawyd gonestrwydd yr adroddiad, er enghraifft, y cyfeiriad at yr angen i newid gêr o ran presenoldeb. Gan gyfeirio at y tabl ym mharagraff 4.4 o'r adroddiad, sylwyd y bu cynnydd ym mhresenoldeb 56% o'r grwpiau a dargedwyd, a diolchwyd i'r Swyddogion Lles am eu gwaith. Holwyd, fodd bynnag, a oedd y cynnydd yn y lefelau presenoldeb ers ymweliad Estyn ym Mehefin 2023 yn ddigonol. Gan gyfeirio at bresenoldeb fesul awdurdod lleol, croesawyd y ffaith bod ffigurau Gwynedd wedi cynyddu o 88.7% yn 2022/23 i 89.1% yn 2023/24, ond nodwyd bod ffigurau rhai siroedd eraill un uwch, megis Wrecsam (90.1%) a Sir Fynwy (90%), a holwyd a oedd yna unrhyw wersi i'w dysgu gan y cynghorau hynny. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Nad oedd y cynnydd mewn lefelau presenoldeb yng Ngwynedd yn ddigonol, ond roedd yn amlwg bod y mwyafrif helaeth o gynghorau yn ei gweld yn anodd cael y maen i'r wal hefyd. Bwriadai'r Adran barhau i fynd ar ôl y mater hwn yn ddidrugaredd hyd oni fyddai'r ffigurau presenoldeb yn ôl lle dylent fod.
- Bod swyddogion yr Adran yn trafod yn helaeth gyda'u cydweithwyr ar draws y rhanbarth, ac yn cynnal trafodaethau cenedlaethol hefyd, a chredid bod Gwynedd yn gweithio ar y pethau cywir.

- Yn ogystal â'r ymgyrch genedlaethol sydd ar y ffordd gan y Llywodraeth, bod bwriad hefyd i gynnal ymgyrch yn lleol i hyrwyddo presenoldeb ar gyfryngau cymdeithasol y Cyngor. Gofynnwyd hefyd i Gareth yr Orangutang wneud gwaith ar hyrwyddo presenoldeb gyda phlant ysgol.
- Bod yr Adran yn edrych oes gwersi i'w dysgu gan siroedd eraill, ond mewn rhai sefyllfaoedd, roedd siroedd eraill yn edrych ar Wynedd fel enghraifft o arfer da ac yn ystyried beth allent hwy ei ddysgu gennym ni.
- Mai'r gwendid mwyaf ar hyn o bryd oedd y ffaith bod y data ar lefel awdurdod yn cyrraedd yn hwyr a heb ei ddadansoddi i'r lefel y byddem yn dymuno. Roedd hynny yn rhoi'r Cyngor ar y droed ôl o ran targedu grwpiau penodol o ddysgwyr ayb. Fodd bynnag, roedd yr Adran yn gweithio ar fyrder i fynd i'r afael â hyn.

Nodwyd bod Mrs Caroline Rees yn cytuno gydag argymhelliad Estyn bod angen i'r Awdurdod weithio gydag arweinwyr ysgolion i gyd-lunio strategaeth cynhwysiad effeithiol ledled y sir. Holwyd faint o drafodaethau oedd wedi bod gyda'r ysgolion ynglŷn â hynny ac a oedd unrhyw beth wedi'i gyflawni. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod y penaethiaid yn gweithio gyda'r Adran o'r cychwyn i ddod â chynllun at ei gilydd a'u bod hefyd yn rhan o'r ymweliadau i weld arfer da.
- O ran yr heriau cynhwysiad, bod y gwaith gydag asiantaethau eraill ac adrannau eraill o fewn y Cyngor yn rhan o hynny.
- Yr edrychid ar ddatrysiadau megis cynnal gweithdy i edrych pa wasanaethau sy'n gweithio gyda phobl ifanc y tu allan i'r ysgol hefyd. Nid oedd hyn yn ddatrysiad ysgolion yn unig, ond yn rhywbeth sydd angen ei wneud yn ehangach o ran y gymuned hefyd.

Holwyd a oedd yr Adran yn annog penaethiaid i atgoffa'r staff i lenwi'r gofrestr er osgoi bylchau yn y data. Mewn ymateb, nodwyd bod y neges yma wedi mynd allan i'r ysgolion sawl gwaith ac y byddai'n cael ei hanfon eto i atgoffa'r ysgolion o bwysigrwydd cofrestru plant ddwywaith y dydd yn amserol, yn unol â'r gofyn cyfreithiol.

Holwyd a oedd yr Adran yn monitro os yw ysgol wedi llwyddo i gofnodi pob un disgybl yn amserol. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Y gallai'r Adran fonitro os ydi ysgol wedi cofrestru plant ddwywaith y dydd, ond na ellid monitro bod hynny wedi'i wneud yn amserol.
- Mai cyfrifoldeb yr ysgol yw sicrhau bod plant wedi'u cofrestru yn amserol a disgwylir i Dîm Rheoli unrhyw ysgol, yn enwedig ysgol uwchradd, fod yn ymwybodol petai staff heb gofrestru plant ar amser a mynd i'r afael â hynny.

Holwyd a oedd yna ysgolion uwchradd sydd heb wahardd o gwbl ers dwy flynedd. Nodwyd hefyd y byddai wedi bod yn fuddiol gweld ffigurau cymharol siroedd eraill. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod cymhariaeth gydag awdurdodau eraill yn gymhleth gyda nifer o ffactorau gwahanol yn bwydo i mewn i hyn, a bod yna eithriadau o fewn awdurdodau unigol hyd yn oed.
- Yng Ngwynedd, gyda 12 ysgol uwchradd a 2 ysgol gydol oes, roedd 14 o benaethiaid yn gwneud penderfyniadau o ran gwahardd plant, ac nid oedd yr Awdurdod yn ymyrryd yn y penderfyniad hwnnw os nad oedd wirioneddol raid.
- Bod gan awdurdodau eraill nifer llai o ysgolion, a bosib' bod eu darpariaethau cynhwysiad yn wahanol hefyd.
- Y gallai sir fechan yn ddaearyddol, lle mae popeth yn agos at ei gilydd, fod â darpariaeth yn y canol fyddai'n cynhwyso nifer o'r plant cyn iddyn nhw gyrraedd y pwynt o wynebu gwaharddiad.
- Gallai Gwynedd fod â nifer uchel o waharddiadau, ond nifer isel o ddisgyblion y tu allan i addysg, a gallai siroedd eraill fod â nifer isel o waharddiadau, ond

nifer sylweddol uwch na Gwynedd o blant blwyddyn 11 ddim mewn addysg o fewn ysgolion prif lif.

- Er hyn i gyd, bod nifer y gwaharddiadau yng Ngwynedd yn rhy uchel. Gellid casglu bod ymddygiad plant yng Ngwynedd yn debyg i ymddygiad plant mewn siroedd eraill, ond roedd yn ymddangos o'r ffigurau nad oedd y siroedd eraill hynny yn gwahardd gymaint â ni, a dyna'r neges a gyflëwyd i'r ysgolion yn ddiweddar iawn.

Gan gyfeirio at y sylw yn gynharach yn y drafodaeth ynglŷn â thracio ysgolion, gofynnwyd pa fath o gymorth a her sy'n cael ei roi i'r ysgolion hynny. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod y gefnogaeth a roddir i ysgolion â nifer uchel o waharddiadau yn cynnwys edrych ar y rhwystrau a thracio unigolion sy'n derbyn nifer o gyfnodau gwaharddiad er mwyn gallu eu cefnogi.
- Er bod nifer y gwaharddiadau parhaol yn hynod uchel ac angen sylw, 10% yn unig o'r holl waharddiadau oedd wedi arwain at waharddiadau parhaol yn ystod y cyfnod dan sylw.
- Bod gan yr Awdurdod gytundeb gyda'r ysgolion i geisio gwneud popeth i osgoi gwaharddiadau parhaol.
- Bod gan yr Awdurdod ddarpariaeth y tu allan i'r ysgol petai'n rhaid symud ar fyrder yn achos unigolyn a gafodd ei wahardd yn barhaol o un ysgol yn wynebu gwaharddiad parhaol o ysgol arall.
- Bod yr Adran yn ffyddiog eu bod yn llwyr ymwybodol pa ysgolion sy'n gwahardd fwyaf, pwy yw'r disgyblion a lle mae angen rhoi adnoddau i gefnogi, er yr heriau cyllidol ynghlwm â hynny.

Awgrymwyd y byddai'n fuddiol cael diweddariad ymhen blwyddyn ar gynnydd o ran y 5 ysgol yng Ngwynedd sy'n cael eu tracio.

Mynegwyd pryder bod plant yn delio â chyffuriau y tu allan i ysgol uwchradd. Holwyd a oedd hyn yn broblem o fewn yr ysgolion hefyd, a beth oedd yn cael ei wneud ynglŷn â hynny. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Ei bod yn drist adrodd bod yna unigolion yn mynd â chyffuriau i mewn i'r ysgol, a bod yna waharddiadau ynghlwm â hynny.
- Y llwyddwyd i ddenu arian ychwanegol ar gyfer penodi 2 swyddog wedi'i lleoli o fewn y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid, ond yn gweithio mewn partneriaeth gyda'r Adran Addysg, i fynd o amgylch yr ysgolion ac i weithio gydag unigolion sydd wedi'u gwahardd am ddod â chyffuriau i mewn i'r ysgol.

Nodwyd ei bod yn gysur gweld bod yr Adran yn rhoi ystyriaeth i'r broblem gyffuriau sy'n dwysau o fewn ein cymdeithas.

**PENDERFYNWYD**

1. **Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau.**
2. **Gofyn am ddiweddariad i'r Pwyllgor ar gynnydd yn y dyfodol.**

**7. TRAWSNEWID ADDYSG AR GYFER PLANT YN EU BLYNYDDOEDD CYNNAR**

Croesawyd y Rheolwr Gwasanaeth Blynyddoedd Cynnar i'r cyfarfod.

Cyflwynwyd – adroddiad yn gwahodd y pwyllgor i graffu:-

- Beth yw'r camau y bwriedir eu cymryd er mwyn trawsnewid addysg ar gyfer plant yn eu blynyddoedd cynnar?

- Beth yw'r amserlen a'r cerrig milltir allweddol ar gyfer trawsnewid y gwasanaeth?
- Sut y bwriedir cyllido trawsnewid y gwasanaeth blynyddoedd cynnar?

Rhoddodd y Rheolwr Gwasanaeth Blynyddoedd Cynnar grynodeb byr o gynnwys yr adroddiad.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau.

Mynegwyd siomedigaeth ynglŷn â chynnydd y gwaith hyd yma. Nodwyd y deellid y rhwystrau o ran staffio a chyllid, ond pwysleisiwyd mai'r blynyddoedd cynnar yw'r cyfnod mwyaf pwysig yn natblygiad plentyn.

Holwyd faint o gydweithio agos sy'n digwydd rhwng yr Adran Addysg a'r Adran Plant oherwydd, yn ôl diffiniad y Llywodraeth, roedd y blynyddoedd cynnar yn cynnwys 0-7 oed, ond nid oedd yna unrhyw gyfeiriad yn yr adroddiad at y cyfnod ar ôl i'r plant gychwyn yn yr ysgol. Mewn ymateb, nodwyd bod rhaglen waith yr Uned Blynyddoedd Cynnar yn canolbwyntio ar y cyfnod cyn ysgol yn bennaf, sef addysg feithrin a'r cynlluniau ar gyfer plant dan 4 oed.

Cyfeiriwyd at y polisi newydd fydd yn dod i rym y flwyddyn nesaf ynglŷn â thoiledu, a holwyd sut y bwriedid talu am y ddarpariaeth. Holwyd hefyd a oedd peryg' y gallai plentyn sydd ddim yn sych gael eu hamddifadu o fynd i'r ysgol hefo'u cyfoedion. Mewn ymateb, nodwyd:

- Y byddai'r polisi yn rhoi'r disgwyliad ar rieni i fod yn toiledu eu plant, gyda chefnogaeth yn cael ei ddarparu ar gyfer gwneud hynny.
- Bod y cynllun yn cael ei groesawu gan yr ysgolion gan ei fod yn ail-ddiffinio'r berthynas rhwng rhieni ac ysgol, fel bod rhieni yn rhiantu ac ysgolion yn addysgu'r plant.
- Bod ymrwymiad yr Adran Addysg a'r Gwasanaethau Plant i'r blynyddoedd cynnar yn sylweddol o ran amser ac o ran yr hyn y ceisir ei wneud, ac yn heriol hefyd gan fod angen ceisio dadwneud ac ail-greu systemau cymhleth, gan ymgorffori'r gwasanaethau iechyd yn hyn hefyd.
- Bod yr ysgolion eu hunain yn talu am waredu clytiau, sy'n gostus iawn iddynt. Ni fyddai yna gost ar yr ysgolion yn sgil cyflwyno'r polisi newydd gan y byddai'n ofynnol i blant gael eu toiledu cyn dod i'r ysgol, ond byddai cost y gefnogaeth drwy'r gwasanaeth iechyd, ayb, yn dod o'r grantiau sydd ar gael.

Holwyd pam nad oedd yna lawer o gyfeiriad at y Mudiad Ysgolion Meithrin a'r gwasanaeth iechyd yn y cynlluniau. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod y berthynas gyda'r Mudiad Ysgolion Meithrin yn dda. Fodd bynnag, roedd yna ragor o waith i'w wneud i ddatblygu'r berthynas honno ymhellach, ac roedd hynny'n rhan o'r gwaith sy'n cael ei gyflawni gan yr Uned Blynyddoedd Cynnar ar hyn o bryd.
- Y gellid dadlau bod gan Wynedd fwy o gylchoedd meithrin na siroedd eraill, a hynny oherwydd natur yr iaith ayb.
- Bod yna Fwrdd Ansawdd ar gyfer y blynyddoedd cynnar sy'n cynnwys cynrychiolaeth o du'r cylchoedd meithrin, a bod yna dîm o athrawon yn cefnogi ansawdd y ddarpariaeth a thîm o swyddogion o'r mudiad yn cefnogi agweddau mwy rheolaethol a llywodraethol y ddarpariaeth.
- Bod mwyafrif helaeth y materion sy'n codi yn faterion yn ymwneud ag arweinyddiaeth a llywodraethiant cylchoedd, yn hytrach nag ansawdd y ddarpariaeth.

Mewn ymateb i'r sylwadau hyn, nododd yr aelod a gododd y mater nad oedd hynny'n amlwg yn yr adroddiad.

Mynegwyd pryder ei bod yn ymddangos o ddarllen paragraff 9 o'r Rhaglen Waith Trawsffurfio'r Blynyddoedd Cynnar mai 21 yn unig o'r 83 darparwr gofal plant cofrestredig yng Ngwynedd sy'n darparu gwasanaeth Cymraeg neu ddwyieithog. Mewn ymateb, nodwyd bod yna 81 o ddarparwyr cofrestredig, gyda 21 ohonynt yn darparu gwasanaeth ôl ofal plant 2 oed, a'i bod yn ofynnol i'r holl ddarparwyr ddarparu yn Gymraeg ac yn ddwyieithog.

Awgrymwyd y gallai'r ddogfen Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar yng Nghymru fod yn gynsail i lunio strategaeth i Wynedd gyda'r data lleol sydd gennym. Cwestiynwyd yr holl ymgynghori a chomisiynu arolygon, yn lle symud ymlaen gyda'r strategaeth. Nodwyd hefyd bod trawsnewid addysg ar gyfer y blynyddoedd cynnar yn golygu creu newid er gwell drwy Wynedd gyfan, ond ni welid cyfeiriad yn yr adroddiad at Llŷn. Nodwyd bod yna waith da iawn yn digwydd mewn pocedi o'r sir, ond pwysleisiwyd y dylai pob plentyn 5 oed fod yn y ffrâm ar gyfer addysg a chyfleoedd chwarae. Holwyd ble roedd y weledigaeth ac erfyniwyd ar y Gwasanaeth i ddatblygu'r Strategaeth ar frys gan fod amser yn brin. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod llunio'r Strategaeth yn flaenoriaeth i'r Gwasanaeth.
- Bod grantiau'r Llywodraeth dros y 10 mlynedd ddiwethaf wedi arwain at fwy o ddarpariaeth mewn rhai pocedi o'r sir, ac nid oedd yn gyfartal ar gyfer holl blant Gwynedd. Dyma fyddai'n llywio'r Strategaeth, a byddai'n rhaid gweithio gyda'r partneriaid eraill i'w llunio.
- Y byddai'n rhaid edrych ar atebolrwydd y gwaith hefyd a mynegwyd gwerthfawrogiad o'r ffaith bod y mater hwn yn cael ei graffu er sicrhau hynny.

Gan gyfeirio at baragraff 10 o'r Rhaglen Waith, holwyd pa mor amlwg fydd y Gymraeg yn y gofodau gofal plant ac addysg feithrin newydd, yn benodol felly Ysgol Ein Harglwyddes, Bangor, sydd yn y categori trosiannol. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Y cafwyd cyfarfod gyda llywodraethwyr Ysgol Ein Harglwyddes i egluro'r weledigaeth o ran cael darpariaeth Cymraeg neu ddwyieithog, a'u bod yn cytuno, pan fydd y broses caffel yn digwydd, y byddwn yn chwilio am ddarpariaeth fydd yn gweithredu yn ddwyieithog.
- Bod yna ddarpariaeth ar safle presennol yr ysgol ar hyn o bryd, ac y bu'r Adran yn cydweithio gyda'r ddarpariaeth honno dros y cyfnod diwethaf i wella eu hansawdd o ran darparu yn ddwyieithog.

Mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhawyd y bydd y llywodraethwyr a swyddogion y Cyngor yn cael mewnbwn i'r gwaith o werthuso'r broses caffael, gan edrych ar gael darpariaeth ddwyieithog ar y safle.

Nodwyd, er bod y gofodau i'w croesawu, ei bod yn anodd weithiau cynnal y gofodau sy'n bodoli eisoes, yn arbennig felly mewn ardaloedd gwledig lle mae'r niferoedd plant yn gallu bod yn isel o dro i dro, a holwyd faint o bwys a roddid ar gynnal y gofodau hynny. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod yna sawl ffynhonnell gyllidol yn mynd i'r lleoliadau gofal plant ac addysg feithrin ar hyn o bryd, a bod hynny wedi cynyddu'n sylweddol dros y 4 blynedd ddiwethaf.
- Dros y cyfnod diwethaf rhoddwyd cyfraniadau eithaf teg i gylchoedd bach er mwyn eu cadw'n hyfyw, ond roedd yna fwy o gyllideb yn dod gan y Llywodraeth hefyd gan eu bod yn gobeithio ymestyn gofal plant 2 oed ymhellach. Gan hynny, roedd rhaid ystyried hyn i gyd a gweld beth yn union yw'r fformiwla ariannu sydd angen mynd i gylchoedd er mwyn eu cadw.

- Bod cadw rhai o'r cylchoedd meithrin lleiaf yn andros o her mewn sir wledig fel Gwynedd, ond gallai'r cynnydd yn y gofyn o ganlyniad i ymestyn gofal plant 2 oed ymhellach eu gwneud yn fwy hyfyw yn y dyfodol.
- Bod addysg a gofal plant yn y blynyddoedd cynnar yn gostus gan fod angen cymhareb staff / plentyn diogel ac oherwydd bod y disgwyliadau ar y lleoliadau yn sylweddol, boed hynny'n arolwg Estyn, neu'n arolwg o'r canllawiau diogelu ayb sy'n cael eu gwneud yn rheolaidd.
- Nad oedd yna'r niferoedd plant mewn pocedi o ardaloedd yng Ngwynedd i gyfiawnhau, neu i fod yn sefydlu darpariaeth hyfyw i'r dyfodol, a hynny oherwydd dewisiadau rhieni neu'r ffaith nad oes yna blant o gwbl mewn rhai ardaloedd.
- O ran ariannu cylchoedd meithrin, bod y Cyngor wedi bod yn rhoi dyraniad craidd i bob lleoliad, sy'n golygu bod cylch gyda 3-4 o blant yn cael yr un dyraniad craidd â chylch gyda 30 o blant.
- Bod y sefyllfa'n gymhleth, yn enwedig gan mai gwirfoddolwyr sydd, i bob pwrpas, yn sefydlu cylchoedd meithrin a darpariaethau gofal, a bod pwysau aruthrol arnynt fel unigolion i allu cynnal y darpariaethau hynny.
- Y dymunid sicrhau'r craffwyr bod y Gwasanaeth yn ystyried popeth o ran sut y gellir sicrhau darpariaeth o ansawdd i blant cyn iddyn nhw gychwyn yn yr ysgol, a bod cynaladwyedd yn un ohonynt.

Nodwyd bod rhai rhieni mewn ardaloedd tu hwnt o wledig yn dewis peidio rhoi eu plant yn y cylch meithrin agosaf gan fod y niferoedd yn isel yn barod, ac yn eu rhoi mewn cylch arall lle mae'r niferoedd yn uwch. Golygai hynny bod yna lai o blant yn mynd i fod yn yr ysgolion gwledig hynny yn y dyfodol, ac roedd hynny'n bryder. Awgrymwyd bod yna amryfal ffyrdd o geisio cymell pobl i rannu plant yn eithaf teg ar draws cylchoedd meithrin, yn enwedig os nad ydi rhai o'r rhieni yn defnyddio'r cylch sydd ar eu stepen drws.

Holwyd a oedd lle i ystyried y gallai ysgolion gynnal eu hysgol feithrin eu hunain, fel eu bod yn dod o dan adain y Cyngor, yn hytrach na'r Mudiad Ysgolion Meithrin. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod y cwestiwn yn un anodd ei ateb oherwydd bod y sefyllfa mewn rhai ardaloedd yn benthyg ei hun yn fwy i fodel lle byddai plant, o bosib', yn cychwyn yn gynt yn yr ysgol, nag a fyddai mewn ardaloedd eraill.
- Bod y sefyllfa'n gymhleth hefyd o ran y cwestiwn a fyddai'r Cyngor yn darparu'r addysg a'r gofal, a sut y gellid bod yn deg â darparwyr gofal yn y sector breifat y tu allan i addysg.
- Gan mai un polisi mynediad sydd gan Wynedd ar gyfer yr holl ysgolion, byddai newid yr oed mynediad mewn un ysgol yn golygu ymgynghori â phob ysgol.
- Bod llawer o'r gwirfoddolwyr yn y cylchoedd meithrin yn llywodraethwyr ysgolion hefyd.
- Bod rhaid pwyso a mesur hyn wrth symud ymlaen, ond y dymunid pwysleisio'r berthynas waith dda sydd gan y Cyngor gyda'r Mudiad Ysgolion Meithrin a'r ffordd y ceisir meddwl am ddulliau mwy cynaliadwy o gynnal y darpariaethau. Roedd y Cyngor yn cynnal y math yma o drafodaethau gyda'r Mudiad gan na chredid bod y drefn bresennol o bwyllgor o wirfoddolwyr a nifer fechan o staff a phlant yn gynaliadwy i'r dyfodol yng Ngwynedd.

Nodwyd mai dyma'r math o beth y byddai'r aelodau wedi dymuno ei weld yn yr adroddiad er mwyn cael sicrwydd o ran y cydweithio, a mynegwyd siomedigaeth ynglŷn â'r diffyg gweledigaeth i symud ymlaen a chynllunio yn yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD**

1. **Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau.**
2. **Nodi pryder ynglŷn â'r diffyg adnoddau sydd ar gael i symud y gwaith ymlaen.**
3. **Bod y pwyllgor yn edrych ymlaen at weld cydweithredu ehangach gydag asiantaethau eraill perthnasol.**
4. **Gofyn am ddiweddariad i'r Pwyllgor ymhen blwyddyn.**

**8. STRATEGAETH LLESIANT STAFF**

Croesawyd yr Aelod Cabinet Gwasanaethau Corfforaethol a'r swyddogion i'r cyfarfod.

Cyflwynwyd – adroddiad yr Aelod Cabinet Gwasanaethau Corfforaethol yn gwahodd y pwyllgor i graffu'r maes llesiant staff er mwyn cael sicrwydd fod trefniadau priodol mewn lle ac y bydd y Strategaeth arfaethedig yn cyfarch yr heriau o ran ôl-effaith cyfnod y pandemig ymysg y gweithlu a chostau absenoldebau staff oherwydd salwch.

Gosododd yr Aelod Cabinet y cyd-destun a rhoddodd y Pennaeth Cynorthwyol Gwasanaethau Corfforaethol grynodeb byr o gynnwys yr adroddiad.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau.

Nodwyd:-

- Fel sy'n gyffredin bob amser mewn arolwg staff, bod yna dipyn o farn yn yr adroddiad ynglŷn â gwybodaeth a sgiliau rheolwyr canol, a nodwyd y croesawid y Strategaeth cyn belled â'i bod yn cael ei gweithredu a'i mabwysiadu yn benodol gan uwch swyddogion, a bod rheolwyr llinell, a rheolwyr canol yn benodol, yn derbyn hyfforddiant rheolaidd ac arweinyddiaeth.
- Er bod yr adroddiad yn dyfynnu ychydig o eiriau staff i ddangos beth yw'r teimlad, y byddai wedi bod yn fuddiol cyflwyno mwy o ddata a gwybodaeth i ddangos beth yw barn staff gwahanol adrannau'r Cyngor yn sgil yr Arolwg Llais Staff.
- Bod yr absenoldebau staff yn uchel ac y byddai wedi bod yn fuddiol cyflwyno mwy o wybodaeth er mwyn gweld oes yna broblemau amlwg mewn rhai adrannau, a'r rhesymau dros hynny.
- Y croesawid y cyfle i'r pwyllgor graffu'r maes hwn eto.

Mewn ymateb i'r sylwadau, nodwyd:-

- Bod y data yn sicr ar gael. O ran yr Arolwg Llais Staff yn benodol, bod yna neges glir o ran yr ystadegau ar lesiant, gyda'r sgôr llesiant yn is na'r sgôr swyddi / gwasanaethau. Roedd yna neges glir hefyd nad oedd staff rheng-flaen yn ymwybodol o'r pecynnau cefnogaeth sydd ar gael.
- O ran y sylw ynglŷn â rheolwyr, bod gweithlu iach a bodlon bellach yn un o'r 9 ffrwd gwaith yng Nghynllun Ffordd Gwynedd, gyda ffrwd gwaith arall yn ymwneud â datblygu staff a rheolwyr, a byddai'r Strategaeth yn plethu i mewn i hynny o ran y rhaglenni sydd ar gael i ddatblygu rheolwyr.

Awgrymwyd, er bod rheolwyr canol yn arbenigwyr yn eu maes, nad oeddent bob amser yn rheolwyr naturiol, a gofynnwyd at bwy y dylai'r staff gyfeirio unrhyw bryderon sydd ganddynt ynglŷn â materion rheolaethol. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Yn amlwg, gallai staff uchafu materion o'r fath o fewn y gwasanaeth neu'r adran, ond, fel rhan o'r Cynllun Llesiant, bwriedid adnabod cydlynwyr llesiant o fewn pob adran.
- Y gallai staff hefyd gyfeirio'r mater i sylw'r Gwasanaeth Adnoddau Dynol neu'r drefn Canu'r Gloch.

Nodwyd y byddai'n ddiddorol gweld yr ystadegau ar dudalennau 2 a 3 o'r Cynllun Llesiant dros gyfnod o, dyweder, 5 mlynedd er mwyn gallu cymharu'r sefyllfa bresennol gyda'r sefyllfa cyn, ac yn ystod y cyfnod Cofid.

Croesawyd y bwriad i adnabod cydlynwyr llesiant, a holwyd, o safbwynt llesiant y cydlynwyr eu hunain, a oedd bwriad i'w rhyddhau o'u dyletswyddau arferol am gyfnodau i ymgymryd â'r rôl yma. Mewn ymateb, nodwyd bod y trafodaethau ynglŷn â hynny yn parhau.

Holwyd a oedd modd i'r staff droi at rywun annibynnol am gyngor ynglŷn â materion llesiant. Mewn ymateb, nodwyd bod gan y Cyngor gytundeb gyda Medra, sydd â nifer o gwnselwyr dros Gyngor Gwynedd, a bod modd i'r staff fynd atynt yn gwbl gyfrinachol i drafod unrhyw bryderon.

Holwyd a oedd yn flaenoriaeth gorfforaethol bod pawb o'r staff yn cael eu gwerthuso, a beth oedd y trefniadau ar gyfer hynny. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod gwerthuso parhaus yn un o'r 9 ffrwd gwaith o fewn Cynllun Ffordd Gwynedd.
- Y bu'r drefn werthuso yn eithaf llafurus dros y blynyddoedd, ond bod gwaith ar droed bellach i lunio fframwaith newydd sy'n fwy hyblyg.
- Bod rhaid i'r drefn newydd weithio i bob gwasanaeth, o dimau sy'n cael cyfarfodydd un i un gyda'u rheolwyr yn fisol i weithlu sydd allan ar safleoedd, a ddim yn gweld eu rheolwr mor aml.

Mynegwyd gobaith y bydd y Strategaeth Llesiant yn codi'r morâl isel sy'n dal i fodoli ymhlith staff. O ran yr amgylchedd gwaith, mynegwyd siomedigaeth nad oedd cyfeiriad at y Cynllun Moderneiddio Swyddfeydd yn y Strategaeth, gan fod darpariaethau syml fel gofod i staff fynd am baned a pheiriannau dŵr ayb yn cyfrannu'n helaeth at lesiant. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Nad oedd y Cynllun Moderneiddio Swyddfeydd yn ymwneud â llesiant fel y cyfryw, a bod y Strategaeth Llesiant yn strategaeth gorfforaethol sy'n cynnwys pob gweithle, gan gynnwys cartrefi preswyl, ysgolion ayb.
- Bod y gwaith o foderneiddio Pencadlys y Cyngor wedi dechrau, gyda'r Adran Eiddo yn arwain ar y gwaith.
- Bod bwriad i greu ardal llesiant ar gyfer staff yn yr hen dderbynfa yn y Pencadlys. Ni ellid cadarnhau union amserlen y gwaith, ond gallai'r swyddogion ddilyn hynny i fyny ar ôl y cyfarfod.

Holwyd a oedd lle yn y Pencadlys i staff fynd i fwyta eu cinio, yn hytrach na gorfod bwyta wrth eu desgiau. Mewn ymateb, nodwyd bod y trefniadau yn amrywio o goridor i goridor, ond yn sicr bod bwriad i greu gofod corfforaethol ar lawr gwaelod y Pencadlys.

Holwyd a oedd yna staff yn dewis gweithio o adre oherwydd nad oeddent yn teimlo'n ddigon iach i ddod i'r gweithle a chymysgu gyda phobl eraill. Holwyd hefyd a welwyd mwy o iselder ers i bobl fod yn gweithio o adref. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod mwy a mwy o staff yn dod i mewn i'r gweithle bellach a bod llawer ohonynt yn adrodd eu bod yn teimlo'n well gan eu bod yn gallu cymysgu ag eraill.
- Bod nifer y cyfeiriadau llesiant ar gynnydd, ac er y gallai gweithio o adref fod yn ffactor o ran hynny mewn rhai achosion, nid oedd yna ystadegau ar gael i brofi hynny.
- Ei bod yn ofynnol bellach i staff swyddfa ddychwelyd i'r swyddfa 2 ddiwrnod yr wythnos ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol.

Mewn ymateb i'r sylwadau uchod, holwyd a fyddai'n bosib' edrych oes ymchwil wedi'i wneud gan brifysgolion neu gwmnïau i'r math yma o gwestiynau er mwyn gallu adnabod patrymau.

Nodwyd bod y pwysau gwaith ar staff yn cynyddu a holwyd a oedd gan y Cyngor bolisi corfforaethol neu bolisïau adrannol sy'n edrych ar asesiadau baich gwaith. Mewn ymateb, nodwyd bod gan y Cyngor asesiadau risg straen ar gyfer unigolion a gwasanaethau, a phetai unigolyn yn teimlo eu bod dan bwysau oherwydd gormodedd gwaith, gellid trafod hynny fel rhan o'r asesiad risg straen.

Nodwyd y deellid bod mwy o bobl yn cymryd dyddiau salwch ers Cofid a holwyd a oedd yna ddata ar gael ynglŷn â hynny. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod data ar gael, ond bod oedi wedi bod o ran cael y data yn hanesyddol.
- Bod bwriad i sustem cofnodi absenoldebau newydd fynd yn fyw ar y sustem hunanwasanaeth i staff. Byddai'r sustem hon yn cynnig rhywfaint o hyblygrwydd, er enghraifft, petai unigolyn wedi gweithio adref 3 diwrnod o ddydd Llun i ddydd Mercher, a ddim yn teimlo'n ddigon da i ddod i mewn i'r swyddfa ar y dydd Iau, gellid caniatáu iddynt weithio o adref ar y dydd Iau hefyd, cyn belled â bod hynny'n cyd-fynd â gofynion y gwasanaeth.

**PENDERFYNWYD**

1. **Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau.**
2. **Bod y Pwyllgor yn nodi pryder ynglŷn â'r lefelau uchel o absenoldebau staff ac yn gofyn bod diweddariadau ar y Strategaeth yn y dyfodol yn manylu ar ddata penodol, megis cymhariaeth dros gyfnodau, ac ati.**

**9. SESIYNAU YMGYSYLLTU I DRAFOD POLISI IAITH ADDYSG GWYNEDD**

Croesawyd Pennaeth Cyfundrefn Addysg Drochi Gwynedd i'r cyfarfod.

Cyflwynwyd – adroddiad yn gwahodd y pwyllgor i ethol 5 aelod i fod yn bresennol mewn sesiwn ymgysylltu i'w chynnal rhwng 1:30 a 3:30 ar brynhawn y 4ydd o Ragfyr i drafod ac i gasglu syniadau ac awgrymiadau ynglŷn â Pholisi Iaith Addysg Gwynedd, ac i ystyried a oes angen diwygio'r polisi yng ngoleuni canlyniadau Cyfrifiad 2021 a nifer o ddatblygiadau polisi ym maes iaith ac addysg ar y lefel genedlaethol.

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorwyr Jina Gwyrfai, Elwyn Jones, Beth Lawton, Richard Glyn Roberts a Rhys Tudur i fynychu sesiwn ymgysylltu i drafod Polisi Iaith Addysg Gwynedd ar y 4ydd o Ragfyr rhwng 1:30 a 3:30 y prynhawn.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30yb a daeth i ben am 12.40yp.

Cadeirydd

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi |
| **DYDDIAD** | 12fed Rhagfyr 2024 |
| **TEITL** | Cyllidebau Refeniw Ysgolion |
| **RHESWM DROS GRAFFU** | Sicrhau mewnbwn a dealltwriaeth y Pwyllgor Craffu o effaith toriadau, demograffi a grantiau ar gyllidebau refeniw ysgolion |
| **AWDUR** | Gwern ap Rhisiart, Pennaeth Addysg |

**1. Pam fod angen ei graffu?**

**1.1** Cyflwynir yr adroddiad yma mewn ymateb i gais gan aelodau'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi i dderbyn adroddiad am Gyllidebau Refeniw Ysgolion.

**2. Beth yn union sydd angen ei graffu?**

**2.1** Bwriad yr adroddiad yma yw cyflwyno gwybodaeth am sefyllfa Cyllidebau Refeniw Ysgolion a'r effaith a gaiff unrhyw leihad yn y gyllideb refeniw ar Ysgolion Gwynedd.

**3. Crynodeb a'r Materion Allweddol**

**3.1** Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r sefyllfa anodd sy'n wynebu Ysgolion Gwynedd yn sgil yr hinsawdd ariannol presennol, ac effaith toriadau, newidiadau mewn demograffi, a newidiadau posib i grantiau ar gyllidebau refeniw ysgolion. Mae unrhyw leihad i gyllidebau refeniw ysgolion yn cael effaith ar bob agwedd o'r ysgol gan gynnwys lefelau staffio, safonau a phwysau gwaith cynyddol ar staff, adnoddau a phrofiadau addysgol, cynnal a chadw, rheoli risg, yn ogystal â gallu'r staff i redeg yr ysgolion.

**4. Cefndir / Cyd-destun**


**4.1 <u>Effaith Lleihau Cyllidebau Ysgolion</u>**

**4.1.1 Beth yw effaith toriadau ar gyllidebau ysgolion Gwynedd?**

**4.1.2** Gyda sefyllfa ariannol y Cyngor yn dwysau, bu'n rhaid i'r Cyngor weithredu toriad o 2%, sef £1.965 miliwn dros 2 flynedd, sef 2023/24 a 2024/25 ar gyllideb refeniw ysgolion. Manylir ymhellach ar effaith y toriad hwn ar ysgolion ym mhwynt 4.3 o'r adroddiad hwn.

**4.1.3 Beth yw effaith newid demograffeg ar gyllidebau ysgolion Gwynedd?**

**4.1.4** Mae niferoedd dysgwyr yn ysgolion **cynradd** Gwynedd wedi gostwng yn barhaus dros y 5 mlynedd diwethaf, gyda rhagamcan o 1,060 yn llai o ddysgwyr cynradd yn ein hysgolion rhwng 2021 a 2027, fel y dengys y tabl isod:





**4.1.5** Rhwng Medi 2023 a Medi 2024 ceir 182 dysgwr yn llai yn y gyfundrefn gynradd gan arwain at leihad o £338,000 yng nghyfanswm y cyllid (ar sail niferoedd dysgwyr) fydd yn cael ei ddatganoli i ysgolion cynradd Gwynedd yn 2025/26.

**4.1.6** Ymhellach, mae'r ysgolion cynradd eu hunain yn rhagweld lleihad pellach o 144 disgybl yn y gyfundrefn gynradd erbyn Medi 2025, a gostyngiad pellach o 134 disgybl erbyn Medi 2026. Bydd y gostyngiad pellach hyn o 460 dysgwr yn llai yn y gyfundrefn gynradd rhwng Medi 2024 a Medi 2026, yn arwain at leihad o oddeutu £1.2miliwn yn y gyllideb fydd yn cael ei ddatganoli i ysgolion cynradd Gwynedd dros y cyfnod.

**4.1.7** Yn y sector uwchradd mae model ariannu gwahanol ar gyfer CA3 a CA4 er bod y ddau gyfnod allweddol yn cael eu cyllido gan Cyngor Gwynedd, gyda'r 6ed dosbarth mewn 6 ysgol uwchradd yn Arfon ac Ysgol Godre'r Berwyn yn cael eu cyllido gan gorff newydd MEDR. Rhwng Medi 2023 a Medi 2024, mae 75 dysgwr yn llai yn y gyfundrefn uwchradd, gan arwain at leihad o £248,000 yng nghyfanswm y cyllid (ar sail niferoedd dysgwyr) fydd yn cael ei ddatganoli i ysgolion uwchradd Gwynedd yn 2025/26.

**4.1.8** Er hynny, mae'r ysgolion **uwchradd** yn rhagweld cynnydd o 166 yn eu niferoedd dros y ddwy flynedd wedyn (Medi 2026 a Medi 2027) fel y dengys y tabl isod:




Er hynny, rydym am roi cyfle pellach i'r ysgolion uwchradd adolygu eu rhagolygon o ystyried y lleihad yn niferoedd dysgwyr y sector gynradd fydd yn bwydo i'r uwchradd dros y blynyddoedd nesaf. O ganlyniad, dros y cyfnod nesaf, byddwn yn gweithio gyda'r ysgolion i wella sail y rhagolygon er sicrhau gwybodaeth mwy dibynadwy o ran cynllunio ymlaen.

**4.1.9** Mae'r 6ed dosbarth mewn 6 ysgol uwchradd yn Arfon ac Ysgol Godre'r Berwyn yn cael eu cyllido gan gorff newydd MEDR. Mae 23 disgybl ôl-16 yn llai yn y 6ed dosbarth rhwng Medi 2023 a Medi 2024 gan arwain at leihad o £92,000 yn y gyllideb ar gyfer 2025/26. Eto, mae'r ysgolion uwchradd/dilynol yn rhagweld cynnydd mewn niferoedd dysgwyr ôl-16 dros y ddwy flynedd wedyn (Medi 2026 a Medi 2026), ond fel gyda niferoedd CA3 a CA4, byddwn yn ail-ymweld â hyn. Ar sail yr uchod, felly, mae'r ysgolion uwchradd yn wynebu cyfanswm o £340,000 yn llai yn y gyllideb yn 2025/26.

**4.1.10** Yn y sector dilynol mae niferoedd dysgwyr yn gyfuniad o'r cynradd a'r uwchradd, gyda 32 disgybl gydol oes yn llai rhwng Medi 2023 a Medi 2024, gan arwain at leihad o £56,000 yn y cyllid sydd ar gael yn 2025/26. Byddwn yn ail-ymweld â rhagolygon oedran uwchradd yr ysgolion dilynol yn yr un modd fel y nodir uchod.

**4.1.11** Mae cynnydd yn dwysedd anghenion y disgyblion yn yr ysgolion arbennig yn y ddwy flynedd diwethaf. Mae cynnydd yn niferoedd dysgwyr yn golygu nad yw'r ysgolion arbennig wedi gweld effaith newid demograffeg yn yr un modd â gweddill ysgolion y gyfundrefn. Yn gyffredinol mae'r ysgolion arbennig wedi eu gwarchod rhag unrhyw doriadau cyllidol gan y Cyngor. O ganlyniad, mae sefyllfa gyllidol yr ysgolion arbennig wedi bod yn fwy sefydlog dros gyfnod o gymharu gyda gweddill y gyfundrefn.

**4.1.12** Wrth gynllunio ar gyfer 2025/26 ac ymlaen, rhaid ystyried bod ysgolion wedi defnyddio gwerth £3.784miliwn o falansau i osod eu cyllidebau ar gyfer eleni. O ganlyniad, bydd yn her sylweddol i ysgolion osod cyllideb ar gyfer 2025/26 os nad oes toriadau staff/adnoddau wedi digwydd yn 2024/25. Felly, heblaw bod ysgol yn rhagweld cynnydd mewn niferoedd dysgwyr i gynnal neu gynyddu'r dyraniad cyllidol sydd yn ddyledus iddi, mae'n anorfod y bydd ysgolion yn gorfod defnyddio unrhyw falansau sydd yn weddill ganddynt os am ohirio unrhyw doriadau o 2025/26 ymlaen. Cydnabyddir nad yw'r sefyllfa yma'n gynaliadwy yn y tymor canol/hir.

**4.1.13** Mae newidiadau mewn grantiau yn cael effaith ar gyllidebau ysgolion hefyd. Nifer dysgwyr ydi'r prif yrrwr yn y fformiwla ac mae cynnydd neu leihad mewn niferoedd dysgwyr yn gallu cael effaith sylweddol ar swm y grantiau a ddynodir i ysgol unigol. Mae grantiau Llywodraeth Cymru hefyd yn cael eu gyrru gan niferoedd dysgwyr. Mae effaith niferoedd dysgwyr ar ddyraniadau a grantiau ysgolion ar gyfer 2025/26 yn dangos lleihad o £1.177miliwn yn cynnwys popeth rydym yn ymwybodol ohono ar hyn o bryd, a gellir ei dorri i lawr fesul sector fel a ganlyn:

- Cynradd - £848,000
- Uwchradd - £176,000
- Dilynol - £144,000
- Arbennig - £10,000

**4.1.14** Nid yw setliad y Cyngor na grantiau ysgolion ar gyfer 2025/26 wedi'u cadarnhau hyd yma. Nid oes ychwaith warant y bydd pob grant yn parhau nac yn cynyddu/lleihau ar gyfer 2025/26. Bydd Llywodraeth Cymru yn datgan eu cyllideb ar 10 Rhagfyr 2024 a bydd setliad cynghorau lleol yn dilyn.

**4.1.15** Yn sgil y negeseuon cyson diweddar am sefyllfa gyllidol y Cyngor, mae'n anorfod y bydd ysgolion yn wynebu toriad yn 2025/26. Fodd bynnag, nid oes penderfyniad am lefel y toriad i ysgolion hyd yma.

## 4.2 Effaith ar Lefelau Staffio

### 4.2.1 Beth fydd goblygiadau toriadau ar lefel staffio ysgolion? Beth fydd effaith hyn ar y plant?

**4.2.2** Mae pryder yn cael ei fynegi'n gyson gan Benaethiaid am effaith a goblygiadau toriadau cyllidol ar lefelau staffio o fewn eu hysgolion. Bu nifer o ysgolion Gwynedd drwy ryw fath o broses ddiswyddo ac ail-strwythuro staff y llynedd yn sgil diffyg yn eu cyllidebau.

**4.2.3** Yn y sector gynradd, mae canran uchel o Benaethiaid yn adrodd nad ydynt yn gallu cynnig darpariaethau arbenigol e.e. ELSA, ymyraethau darllen a rhif ychwanegol i

gwrdd ag anghenion dysgwyr oherwydd nad oes ganddynt y staff i ymgymryd â'r gwaith.

**4.2.4** Mae toriad ar lefelau staffio hefyd yn gallu cael effaith ar allu'r ysgolion i gynnal eu hysgolion yn ddiogel e.e. llai o staff allan ar y buarth, llai o staff yn golygu ei bod yn anoddach i ysgolion allu darparu profiadau / tripiau oddi ar y safle i gyfoethogi'r dysgu.

**4.2.5** Mae hyn yn bendant am gael effaith negyddol ar ansawdd yr addysgu ac ar ddysgwyr yn yr ysgolion, e.e. os yw plentyn yn cael anhawster gydag agwedd o'i ddatblygiad - darllen, emosiynol, efallai na fydd yr ysgol yn gallu sicrhau amser digonol neu berson cyswllt i gynnal rhaglen benodol i gwrdd â'r gofyn yna.

**4.2.6** Mae'r tabl isod yn dangos effaith toriadau ar niferoedd athrawon:

**cyfwerth nifer athrawon @ £60mil y pen**

| | blwyddyn gyfan | 7/12ed | 5/12ed |
|---|---|---|---|
| £500,000 | 8 | 5 | 3 |
| £1,000,000 | 17 | 10 | 7 |
| £1,500,000 | 25 | 15 | 10 |
| £2,000,000 | 33 | 19 | 14 |
| £2,500,000 | 42 | 24 | 17 |
| £3,000,000 | 50 | 29 | 21 |
| £3,500,000 | 58 | 34 | 24 |

**4.2.7** Mae'r tabl isod yn dangos y nifer o ysgolion sydd wedi defnyddio balansau i osod cyllideb yn 2024-25:

| Ysgolion | Nifer ysgol | Defnydd balansau | % |
|---|---|---|---|
| Cynradd | 78 | 68 | 87% |
| Uwchradd | 12 | 9 | 75% |
| Dilynol | 2 | 2 | 100% |
| Arbennig | 2 | 2 | 100% |
| **Cyfanswm** | **94** | **81** | **86%** |

**4.2.8** Mae'r tabl isod yn dangos y nifer o ysgolion oedd â diffyg ar ddiwedd y flwyddyn ariannol 2023-24.

| **Ysgolion** | **Nifer ysgolion** | **Nifer Ysgolion gyda Diffyg** | **%** |
|---|---|---|---|
| Cynradd | 78 | 3 | 4% |
| Uwchradd | 12 | 3 | 25% |
| Dilynol | 2 | | 0% |
| Arbennig | 2 | | 0% |
| **Cyfanswm** | **94** | **6** | **6%** |

**4.2.9 Beth sy'n digwydd i ysgolion sy'n cael nifer fawr o fewnfudwyr ar unwaith?**

**4.2.10** Mae un achos wedi bod yn weddol ddiweddar ble fu rhaid creu dosbarth ychwanegol mewn ysgol oherwydd nifer fawr o fewnfudwyr. Darparwyd cyllid ychwanegol i'r ysgol am y cyfnod Medi-Mawrth (7/12ed), cyn bod cyllid y flwyddyn newydd yn cychwyn.

## 4.3 Gormodedd

**4.3.1 Faint o ysgolion sydd wedi mynd trwy ormodedd oherwydd y toriadau?**

**4.3.2** Mae'r nifer o ysgolion sydd wedi gorfod cychwyn y broses ormodedd yn ffurfiol dros y 5 mlynedd diwethaf fel a ganlyn:

| **2024** | **2023** | **2022** | **2021** | **2020** |
|---|---|---|---|---|
| 18 | 10 | 4 | 6 | 4 |

**4.3.3** Dim ond rhan o'r darlun ydi'r rhain, ac rydym yn trafod ym mis Ionawr efo pob ysgol lle bo'r sefyllfa ariannol am y flwyddyn i ddod yn edrych yn fregus. Mae'r niferoedd rheiny dros y 5 mlynedd diwethaf fel a ganlyn:

| **2024** | **2023** | **2022** | **2021** | **2020** |
|---|---|---|---|---|
| 39 | 28 | 11 | 11 | 10 |

**4.3.4** Fel y gwelwch roedd y nifer rhwng 2020 a 2022 yn eithaf cyson ond bu cynnydd sylweddol yn 2023 ac eto eleni yn 2024. Mae grantiau yn sgil COVID-19 Llywodraeth Cymru wedi'i derbyn gydag ysgolion Gwynedd yn derbyn +£3.8miliwn yn 2020/21, +£6.3miliwn 2021/22, +£1.9miliwn yn 2022/23 a +£1.7miliwn yn 2023/24, cyfanswm o £13.7miliwn dros y cyfnod. Roedd hyn yn galluogi ysgolion i

gyflogi athrawon a chymorthyddion ychwanegol i gefnogi'r dysgu yn ystod ac yn dilyn y pandemig. Bellach fel mae'r grantiau hyn yn lleihau, mae ysgolion wedi defnyddio balansau dros y blynyddoedd i osod cyllidebau mae lleihad wedi, ac yn mynd i barhau i fod, yn lefel staffio yn ein hysgolion, boed hynny trwy ormodedd, staff yn gadael neu yn peidio adnewyddu/ymestyn cytundebau dros dro.

**4.3.5** Ar y cyfan mae'r rheiny sy'n gallu osgoi cychwyn y broses ormodedd yn ffurfiol yn gwneud hynny drwy gyfuniad o addasu cyllidebau (e.e. cwtogi cyllideb Lwfans y Pen neu Llanw), dod â swyddi dros dro i ben a defnyddio unrhyw falansau sydd ganddynt ar gael.

**4.3.6** Fel y gwelwch uchod mae o leiaf hanner yr ysgolion sy'n wynebu diffyg yn eu cyllideb yn gallu osgoi'r broses ormodedd o wneud hynny - mae hwnnw'n batrwm cyson yr ydym yn ei weld. Fodd bynnag nid ydym wedi bod yn casglu faint yn union o swyddi dros dro sydd yn cael eu colli yn flynyddol o wneud hyn.

**4.3.7** O ran yr ysgolion rheiny sy'n cychwyn y broses ormodedd yn ffurfiol, dyma'r ffigyrau o ran yr amser dysgu/oriau cymorthyddion sydd wedi'u colli dros y 5 mlynedd diwethaf:

| | **2024** | **2023** | **2022** | **2021** | **2020** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Swyddi Dysgu** | 24.2 | 4.1 | 1.2 | 3.9 | 4.4 |
| **Cymorthyddion a Staff Ategol** | 519 awr | 210 awr | 119 awr | 74 awr | 228 awr |

**4.3.8** Mae'r ffigyrau uchod yn dangos bod yna gysondeb y tro hwn o 2020 hyd 2023 ond bod naid anferthol wedyn yn 2024 o ran yr amser dysgu a'r oriau cymorthyddion sydd wedi eu colli o'r 18 ysgol fu'n rhaid gweithredu'r broses ormodedd eleni.

**4.3.9** O gynnal y trafodaethau ddechrau Ionawr gydag ysgolion unigol, mae'n deg nodi bod sawl ysgol bellach yn teimlo eu bod wedi cwtogi eu gwariant a'u lefel staffio i'r asgwrn erbyn hyn.

**4.3.10 Beth yw'r broses o sicrhau bod arian cefnogaeth yn mynd gyda disgybl wrth symud ysgol os oes ganddynt anghenion dysgu ychwanegol?**

**4.3.11** Yn 2024/25 mae cyllid ADY wedi ei 'rewi' ar sail oriau dysgwyr a oedd wedi eu dynodi ym Mawrth 2024, felly mewn achosion eithriadol yn unig byddai arian yn symud o ysgol i ysgol, neu bod cyllid ychwanegol yn cael ei ddarparu i'r ail ysgol.

**4.3.12** Bydd newid i sail cyllido ADY yn 2025/26, a bydd y cyllid yn seiliedig ar sgôr CDU Tachwedd 2024 ac mewn achosion eithriadol yn unig bydd arian ychwanegol ar gael (ni fydd arian o ysgol i ysgol).

## 4.4 Cefnogaeth i Ysgolion

**4.4.1 Beth yw'r gefnogaeth i ysgolion sy'n sicrhau nad ydi ansawdd addysg yn gostwng?**

**4.4.2** Yn bresennol mae ysgolion yn derbyn cefnogaeth allanol gan Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant (YCG) sy’n gyflogedig yn GwE - Gwasanaeth Gwella Ysgolion. Mae newid wedi bod i’r gwasanaeth ers Ebrill 2024 ac mae bellach yn wasanaeth sy’n cael ei gomisiynu gan yr Awdurdod. Bydd y gwasanaeth yn dod i ben ar 31 Mawrth 2025 o ganlyniad i ymgynghoriad haen ganol Llywodraeth Cymru.

**4.4.3** Mae pob ysgol gynradd yn gallu derbyn hyd at ddau ymweliad gan YCG y tymor (tri yn yr Uwchradd) sy’n gallu cefnogi'r ysgol wrth iddynt werthuso ac arfarnu ansawdd yr addysgu drwy brosesau monitro a gwerthuso. Gall y gweithdrefnau hyn gynnwys craffu ar lyfrau, arsylwi gwersi, dadansoddi data neu gynnal teithiau dysgu, siarad efo dysgwyr, cefnogi arweinyddiaeth, ac arwain ar hyfforddiant.

**4.4.4** I'r ysgolion rheiny sydd mewn unrhyw gategori Estyn - gwelliant sylweddol neu fesurau arbennig, mae’r Penaethiaid Cynorthwyol Cynradd ac Uwchradd yn cadeirio ac yn arwain ar y Byrddau Rheoli sy’n cael eu sefydlu i fynd i’r afael efo gweithrediad y Cynllun Gweithredu Ôl - Arolygiad Estyn. Mae’r Awdurdod hefyd yn sicrhau lefel uwch o gefnogaeth i’r ysgolion hynny drwy’r comisiwn efo GwE ac, os oes angen, drwy sicrhau cefnogaeth Swyddogion amrywiol Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad (ADYaCh). Mae’r gefnogaeth wedi’i deilwra i’r ysgol ar sail yr angen a’r argymhellion gan Estyn.

**4.4.5** Mae rhai ysgolion wedi cychwyn cydweithio o fewn eu clwstwr i gefnogi ei gilydd i arfarnu ac adolygu prosesau gwerthuso ac ansawdd yr addysgu o fewn eu hysgolion. Mae’r ysgolion hyn yn derbyn cefnogaeth gan yr YCG wrth iddynt gynnal hyfforddiant torfol i’r clwstwr neu wrth iddynt hwyluso'r trefniadau i gydweithio.

**4.4.6** Eleni mae’r Awdurdod wedi gosod disgwyliad ar Pennaeth pob ysgol i gwblhau a chyflwyno eu cynlluniau strategol erbyn diwedd tymor yr haf 2024 fel bod pob ysgol yn gallu cychwyn gweithredu o 1 Medi 2024 ar eu blaenoriaethau. Mae hyn wedi sicrhau bod pob YCG wedi gallu cefnogi arweinyddiaeth yr ysgolion yn ystod Tymor yr Haf i ymbaratoi yn drylwyr ar gyfer y flwyddyn academaidd i ddod. Arweinyddiaeth gadarn a grymus yw’r prif yrrwr i sicrhau addysgu o ansawdd ar draws y gyfundrefn.

**4.5 Effaith ar Ddosbarthiadau**

**4.5.1 Beth ydi effaith dosbarthiadau gyda niferoedd uchel ar ansawdd addysg y plant?**

**4.5.2** Mae sicrhau addysg o ansawdd uchel yn seiliedig ar nifer o ffactorau sydd ddim yn gysylltiedig gyda maint a niferoedd uchel mewn dosbarth. Yma yng Ngwynedd, mae gennym enghreifftiau o blant mewn dosbarthiadau gyda nifer uchel o ddysgwyr yn derbyn addysg ragorol a hefyd enghreifftiau o ddysgwyr mewn dosbarthiadau gyda niferoedd isel iawn o ddysgwyr yn derbyn addysg anfoddhaol. Mae'n llwyr ddibynnol ar ansawdd yr athro sy'n sefyll o'u blaen, ar yr ethos, yr ymrwymiad, y cynllunio a'r profiadau sy'n cael eu cyflwyno fel rhan o ddyluniad cwricwlaidd yr ysgol. Hefyd mae ffactorau eraill, megis ansawdd yr asesu ffurfiannol dyddiol a'r adborth y mae dysgwyr yn ei dderbyn i symud y dysgu yn ei flaen.

**4.5.3** Yr hyn sy'n fwy o her mewn dosbarthiadau ble mae niferoedd y dysgwyr yn uchel ydi gallu'r oedolyn i roi sylw unigol o ansawdd i bob dysgwr yn ei dro. Hefyd, po fwyaf yw'r dosbarth, mwyaf yw'r her i allu gwahaniaethu tasgau ar gyfer y disgybl unigol. Mae heriau ychwanegol i'w hystyried yn y sector gynradd yng Ngwynedd gan fod cymaint o ysgolion llai yn bodoli. Mae enghreifftiau o ddosbarthiadau gyda 32 o ddysgwyr gyda 4 ystod oedran yn cael eu dysgu gan un athro. Mewn sefyllfa o'r fath, bydd ystod eang o alluoedd o fewn un dosbarth a disgwylir i'r athro wahaniaethu'r addysgu ar gyfer y galluoedd hynny i gyd. Mae gennym hefyd ddosbarthiadau o 30 o ddisgyblion yr un oedran. Ochr arall i'r geiniog yw bod yna ddosbarthiadau cymysg o 10 neu lai. Mae heriau i bob sefyllfa, ond rydym yn gweld ein hysgolion canolig o ran maint yn wynebu gwasgfa gyllidol ac yn teimlo effaith ar lawr dosbarth.

**4.5.4 Beth yw effaith dosbarthiadau gyda niferoedd uchel ar athrawon a staff ategol?**

**4.5.5** O ran prif effaith dosbarthiadau gyda niferoedd uchel ar athrawon a staff ategol, mae'n debyg mai'r prif effaith yw eu rhwystredigaeth nad ydynt yn llwyddo i gyrraedd pob dysgwr bob dydd i roi sylw unigol iddynt. Yn aml mae ysgolion yn gweithio system rota er mwyn cyrraedd pob dysgwr o fewn wythnos.

**4.5.6** Mae pwysau cynyddol ar aelodau staff i roi adborth i ddysgwyr ar y pryd yn ystod y foment ddysgu – mae hyn yn gallu profi'n heriol os oes niferoedd uchel yn y dosbarth.

**4.5.7** Mae rhai agweddau, e.e., gwrando ar blant yn darllen yn y Cynradd yn gallu bod yn her ac mae'r elfen o asesu parhaus yn gallu bod yn drwm iawn.

**4.5.8** Mae cynllunio yn fwriadus i ymateb i anghenion unigol dysgwyr hefyd yn gallu bod yn heriol yn arbennig os oes gan y dysgwr anghenion dysgu penodol a dim cymhorthydd yno yn y dosbarth i gefnogi. Mae rhwystredigaeth a theimladau o annhegwch yn gallu codi ymysg staff ysgolion o gymharu sefyllfa o ddosbarth gyda niferoedd uchel o ddysgwyr gyda sefyllfa ysgol llai sydd o bosib efo niferoedd isel iawn o ddysgwyr o gymharu.

**4.5.9 Sut mae'r adran yn sicrhau cysondeb mewn addysg mewn ysgolion gyda niferoedd uchel yn y dosbarthiadau?**

**4.5.10** Yr un yw trefniadau monitro'r Adran gydag ysgolion gyda niferoedd uchel neu isel mewn dosbarthiadau. Nid oes unrhyw wahaniaethu yn hyn o beth.

**4.5.11** Fel sydd wedi ei nodi eisoes, mae addysgeg dda yn bodoli mewn ysgolion mawr, canolig a bach, a gall yn yr un modd fod yn ddiffygiol os yw ysgol yn fawr, canolig neu'n fach. Mae gan Arweinyddiaeth ran allweddol i'w chwarae wrth sicrhau ansawdd yr addysgu ar draws yr ysgol.

**4.6 <u>Hyfforddiant</u>**

**4.6.1 Pa gymorth a hyfforddiant sydd ar gael i staff ysgol a llywodraethwyr i sicrhau eu hyder wrth ddelio â'r pwnc?**

**4.6.2** O ran y broses Gormodedd mae Penaethiaid a Chadeiryddion yr ysgolion sydd â chyllideb ddiffygiol bosib yn cael eu gwahodd i gyfarfod gyda swyddogion i drafod eu sefyllfa unigol fel ysgol. Y tu hwnt i hynny os yw Panel Cyllid yn gofyn yn benodol am gefnogaeth i ddeall goblygiadau cyllidol a'r angen i dorri mi all yr uwch-gyfrifwyr gyfarfod â phaneli unigol. Felly mae cefnogaeth benodol fesul ysgol yn cael ei chynnig.

**4.6.3** Mae rhan fach o'r hyfforddiant Gormodedd i Lywodraethwyr yn cyffwrdd â deall elfennau o'r Gyllideb ond mae angen edrych ar ddatblygu hyfforddiant ehangach ar Gyllid Ysgolion i Lywodraethwyr.

## 5. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

**5.1** Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ceisio gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd llesiant ar gyrff cyhoeddus ac wedi ei anelu at gyflawni 7 o nodau llesiant drwy ddilyn y 5 ffordd o weithio.

**5.2** Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd lles ar y Cyngor i gynnal gwaith datblygu cynaliadwy drwy weithredu mewn cydweithrediad â'r 'egwyddor datblygu cynaliadwy'. Mae hyn yn golygu bod angen ystyried yr effaith ar bobl yn y dyfodol wrth wneud penderfyniadau.

**5.3** O ran **cydweithio** a **chynnwys** eraill, rydym eisoes wedi cynnal sesiynau ymgysylltu yn ddiweddar gyda holl Benaethiaid Gwynedd ar 20/11/24, ac yna gyda Fforwm Cymdeithas Llywodraethwyr Gwynedd ar 28/11/24 er mwyn rhannu gwybodaeth a thrafod y rhagolygon o safbwynt cyllidebau refeniw ysgolion ar gyfer 2025/26. Mae'r

Fforwm Cyllideb Ysgolion hefyd wedi cael ei gynnal lle cyflwynwyd refeniw rhagamcanol ar gyfer 2025/26 yn seiliedig ar niferoedd dysgwyr Medi 2024.

**5.4** O ran y tymor **hir** ac edrych i'r dyfodol, rydym eisoes yn ymwybodol o'r newidiadau mewn demograffeg sy'n wynebu'r Sir a'r effaith a gaiff hyn ar gyllidebau refeniw ysgolion. O ganlyniad, rydym yn y broses o lunio Strategaeth Addysg ar gyfer Gwynedd sy'n cydnabod yr heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu'r sir ac ysgolion dros y blynyddoedd nesaf, ac ar sail hynny bydd y strategaeth yn gosod cyfeiriad strategol clir ar gyfer y gyfundrefn addysg yng Ngwynedd dros y 10 mlynedd nesaf.

**5.5** Er mwyn **atal** problemau rhag codi neu waethygu yn y dyfodol, byddwn yn parhau i weithio'n aml-asiantaethol a gwerthuso effaith unrhyw newid yn rheolaidd.

## 6. Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg a'r Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol

**6.1** Nid oes angen Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb mewn ymateb i effaith newidiadau demograffeg ar gyllidebau a grantiau ysgolion. Fodd bynnag, bydd disgwyl llunio Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar unrhyw benderfyniadau cyllidol a wneir gan y Cyngor fel rhan o ganfod arbedion a thoriadau allai effeithio ar y cyllid sydd ar gael i ysgolion.

## 7. Camau Nesaf

**7.1** Mae Llywodraeth Cymru yn datgan eu cyllideb ar 10 Rhagfyr 2024 a bydd setliad cynghorau lleol yn dilyn.

**7.2** Pan fydd sefyllfa gyllidol a sefyllfa grantiau i ysgolion yn eglur ar gyfer 2025-26, bydd yr Adran Addysg ynghyd â swyddogion o'r Uned Gyllid (Addysg) yn cefnogi ysgolion i gynllunio eu cyllidebau'n briodol ar gyfer 2025-26, ynghyd a'u cefnogi i ddilyn a gweithredu'r broses ormodedd yn ôl yr angen.

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi |
| **DYDDIAD** | 12fed Rhagfyr, 2024. |
| **TEITL** | Cludiant Addysg |
| **RHESWM DROS GRAFFU** | Archwiliad strategol i or-wariant/tan-gyllido yn y maes cludiant addysg. |
| **AWDUR** | Mr. Robert John Jones, Rheolwr Cludiant Addysg. |

## 1. Pam fod angen ei graffu?

1.1 Cyflwynir yr adroddiad yma ar gais y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi yn sgil y ffaith fod cludiant Addysg yn hawlio un o gyllidebau mwyaf yr Adran Addysg ac yn sgil hynny bod yr angen i resymoli'r gwariant yn y maes hwn angen sylw. Mae'n faes sydd yn gorwario'n hanesyddol, ac yn sgil hynny'n destun Adolygiad Strategol er mwyn canfod a deall y rhesymau dros y gorwariant, yr hyn sydd wedi ei gyflawni hyd yma mewn ymateb i'r sefyllfa, ynghyd ag opsiynau newydd sydd o dan ystyriaeth er mwyn lliniaru'r sefyllfa i'r dyfodol.

## 2. Beth yn union sydd angen ei graffu?

2.1 Pwrpas yr adroddiad yma yw i egluro'r cefndir a'r rhesymeg dros y gorwariant hanesyddol, adrodd ar gynnydd a'r camau gweithredu sydd wedi eu cymryd mewn ymateb i'r sefyllfa, yn ogystal â chyflwyno opsiynau sydd o dan ystyriaeth o ran trefniadau cludiant addysg i'r dyfodol er mwyn ceisio rhesymoli a lleihau'r costau ble'n ymarferol bosib.

## 3. Y Cefndir

3.1 Mae'r Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 (y Mesur) yn nodi'r fframwaith cyfreithiol sy'n benodol berthnasol i ddarpariaethau teithio a thrafnidiaeth ar gyfer dysgwyr sy'n teithio o'r cartref i'r ysgol yng Nghymru; gyda 'Darpariaeth Statudol a Chanllawiau Gweithredol' (Y Canllawiau) a gyhoeddwyd yn 2014.

3.2 Mae'r Mesur yn nodi bod yn rhaid i awdurdodau lleol:

- Asesu anghenion teithio dysgwyr yn ardal eu hawdurdod;
- Darparu cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol i ddysgwyr o oedran ysgol gorfodol sy'n mynychu ysgol gynradd sy'n byw dwy filltir ymhellach o'r ysgol addas agosaf;
- Darparu cludiant o'r cartref i'r ysgol am ddim i ddysgwyr o oedran ysgol gorfodol sy'n mynychu ysgol uwchradd sy'n byw tair milltir ymhellach o'r ysgol addas agosaf.
- Asesu a diwallu anghenion plant 'sy'n derbyn gofal' yn ardal eu hawdurdod;

- Hyrwyddo mynediad i addysg Gymraeg ac ysgolion ffydd;
- Hyrwyddo dulliau teithio cynaliadwy.

3.3 Er mwyn diwallu gofynion y Mesur, drwy Gytundeb Lefel Gwasanaeth, mae'r Uned Gludiant Integredig yn Yr Adran Amgylchedd yn gyfrifol am gynllunio a chaffael darpariaeth cludiant i ddysgwyr ar ran yr Adran Addysg. Yr Adran Addysg sydd yn gyfrifol am gyllido'r ddarpariaeth cludiant, gyda'r Uned Gludiant Integredig yn gyfrifol am weinyddu'r ddarpariaeth yn sirol. Mae gan yr Uned Gludiant gyfrifoldeb i sicrhau darpariaeth cludiant yn unol â pholisïau, gofynion cyfreithiol a rheoleiddiol perthnasol, yn ogystal â sicrhau gwasanaeth safonol, cyson a chost effeithiol. Pwrpas yr Uned Gludiant Integredig yw sicrhau trefniadau cludiant integredig ar draws gwasanaethau'r Cyngor er sicrhau trefniadau cludiant effeithiol ac effeithlon. Mae'r Uned Gludiant Integredig yn trefnu a chaffael cludiant i ddysgwyr ar gyfer y canlynol:

- Ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig
- Unedau ABC
- Canolfannau Trochi Iaith cynradd ac uwchradd
- Llechen Lân
- Cludiant ôl-16 i ysgolion a cholegau
- Cludiant all-sirol

3.4 Darperir y cludiant yma drwy ystod o gerbydau yn fysiau ysgol penodol, bysiau mini, a thacsis a ddarperir gan weithredwyr trafnidiaeth trydydd parti. Yn ogystal, darperir 'tocyn teithio' i nifer o ddysgwyr a myfyrwyr ar gyfer defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus lle mae hynny yn gweddu i'w hamgylchiadau. Darperir cymhorthydd teithio hefyd lle bo'r angen yn seiliedig ar asesiad o anghenion dysgwyr.

3.5 Mae ystod o ffactorau dros y blynyddoedd yn golygu bod darparu cludiant addysg yn mynd yn gynyddol gostus i'w gyflawni, megis:

- Ail-dendro darpariaeth bysiau bob 5 mlynedd yn arwain at gynnydd sylweddol mewn costau yn sgil chwyddiant, yn ogystal â chostau uwch i'r darparwr wrth orfod cwrdd â gofynion diogelu ychwanegol ar fysiau dros y blynyddoedd a gaiff ei adlewyrchu ym mhrisiau'r broses dendro;
- Cynnydd yn y costau i ddarparu tacsis dros y cyfnod, gyda phrosesau tendro cyson ar eu cyfer yn golygu bod costau'r cytundebau'n cynyddu'n rheolaidd gan adlewyrchu pris y farchnad yn gyson;
- Cynnydd yn y costau i ddarparu cludiant i ddysgwyr sy'n mynychu ein hysgolion arbennig dros y cyfnod wedi cynyddu o £739,000 yn 2017/18 i £1.5m yn 2018/19. Nid yw hyn yn cynnwys dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol sy'n mynychu ysgolion prif lif.
- Diffyg darpariaeth mewn rhai ardaloedd o'r sir yn arwain at gostau uwch i ddarparu cludiant o ardaloedd eraill i gyfarch y gofyn;
- galw dysgwyr am gludiant am amrywiol resymau'n cynyddu'n flynyddol

3.6 Mae trafodaethau cenedlaethol diweddar yn awgrymu fod awdurdodau ar draws Cymru'n wynebu'r un heriau parthed cynnydd mewn costau cludiant addysg, ac mae'r darlun yn debyg iawn ar draws siroedd gwledig Cymru sydd â heriau daearyddol tebyg i Wynedd.

3.7 Dengys y tabl isod y gyllideb ar gyfer cludiant addysg Gwynedd ers 2016/17, ynghyd â'r gwir wariant i gyfarch gofynion cludiant addysg dros yr un cyfnod:

| | Tacsis a threnau | | | Bysus | | | Cyfanswm | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyllideb | Gwir | Gor/(tan) wariant | Cyllideb | Gwir | Gor/(tan) wariant | Cyllideb | Gwir | Gor/(tan) wariant |
| **2016/17** | 2,064,210 | 2,038,424 | **-25,786** | 2,554,540 | 2,582,690 | **28,150** | **4,618,750** | **4,621,113** | **2,363** |
| **2017/18** | 2,021,500 | 2,223,188 | **201,688** | 2,558,770 | 2,545,402 | **-13,368** | **4,580,270** | **4,768,590** | **188,320** |
| **2018/19** | 2,335,140 | 2,471,034 | **135,894** | 2,609,570 | 2,805,616 | **196,046** | **4,944,710** | **5,276,650** | **331,940** |
| **2019/20** | 2,342,610 | 2,516,348 | **173,738** | 2,821,950 | 2,884,973 | **63,023** | **5,164,560** | **5,401,321** | **236,761** |
| **2020/21** | 2,323,850 | 1,969,468 | **-354,382** | 2,931,910 | 2,560,678 | **-371,232** | **5,255,760** | **4,530,145** | **-725,615** |
| **2021/22** | 2,615,480 | 2,790,864 | **175,384** | 3,149,730 | 3,092,720 | **-57,010** | **5,765,210** | **5,883,585** | **118,375** |
| **2022/23** | 2,841,050 | 3,147,025 | **305,975** | 3,279,460 | 3,521,664 | **242,204** | **6,120,510** | **6,668,690** | **548,180** |
| **2023/24** | 2,743,340 | 3,427,763 | **684,423** | 3,646,240 | 4,457,345 | **811,105** | **6,389,580** | **7,885,109** | **1,495,529** |
| **2024/25 - amcan** | 3,907,460 | 3,752,712 | **-163,579** | 4,182,150 | 4,758,976 | **576,826** | **8,089,610** | **8,511,688** | **413,247** |
| **2025/26 - amcan** | 3,461,260 | 3,718,067 | **256,807** | 4,246,210 | 4,801,060 | **554,850** | **7,707,470** | **8,519,127** | **811,657** |

3.8 Mae'r gyllideb cludiant addysg a welir yn y tabl uchod wedi cynyddu £3.1m ers 2016/17 yn sgil chwyddiant a cheisiadau bidiau parhaol i'r Cyngor gan yr Adran Addysg er mwyn cyfarch y cynnydd mewn costau i ddarparu cludiant dros y cyfnod. Er hynny, mae'r costau wedi cynyddu £3.9m, ac yn parhau i adael amcan o ddiffyg o £812,000 ar gyfer 2025/26.

3.9 O ganolbwyntio ar y cyfnod diweddar, yn 2023/24 bu i'r maes cludiant addysg orwario £1.5m, ar gyllideb o £6.4m. Y prif reswm am hyn oedd gweithredu proses o ail-dendro bysiau ysgolion yn ystod y flwyddyn, effaith yr economi yn gyffredinol, ynghyd â chostau uwch yn gysylltiedig â gofynion hygyrchedd ar ddarparwyr bysiau. Ymhellach mae pwysau cynyddol ar ofyn tacsis yn bennaf yn gysylltiedig â'r maes Anghenion Dysgu Ychwanegol.

3.10 Mewn ymateb i'r gorwariant, darparwyd cyllideb ychwanegol parhaol i'r Adran Addysg gan y Cyngor o £895k, a chyllideb un-tro o £895k ar gyfer 2024/25 yn unig. Golyga hyn nad oes gorwariant eleni, gan roi cyfle i'r Adran Addysg adnabod cyfleoedd ar gyfer ceisio rhesymoli'r costau ynghlwm â darparu cludiant addysg. Ar yr un pryd, rhaid cydnabod fod gweithredu addasiadau i gontractau cludiant a newid y modd yr ydym yn darparu cludiant addysg yn fater a gymer peth amser i'w weithredu a gweld ei effaith yn llawn.

3.11 Yn seiliedig ar ddata contractau cyfredol, rhagwelir y bydd y gost o ddarparu cludiant addysg ar gyfer y flwyddyn ariannol 2025/26 yn £8.5m. Gellir rhannu'r gost i 2 brif categori, sef gwariant ar gontractau bysus o £4.8m a gwariant ar gontractau tacsis o £3.7m. Ar sail y costau hyn, rhagwelir gorwariant o £812k ar gludiant addysg yn 2025/26. Mae'r gorwariant yn cynnwys costau ychwanegol sydd y tu allan i reolaeth yr Adran, ond gall y cynlluniau a weithredir i arbed arian (manylir arnynt yn Adran 4 o'r adroddiad) leihau rhywfaint ar swm y gorwariant a ragwelir uchod. Er hyn, bwriedir cyflwyno bid un-tro i'r Cyngor ar gyfer 2025/26, ochr yn ochr â'r bwriad i barhau i adnabod cyfleon arbed arian.

3.12 Yn sgil yr uchod, mae'r Adran Addysg wedi penodi Rheolwr Cludiant Addysg ers mis Ebrill 2024 er sicrhau adnodd penodol i allu ymateb i'r sefyllfa, ac yn yr un cyfnod mae'r maes cludiant addysg yn destun Adolygiad Strategol ac mae rhaglen waith wedi ei llunio i

ganolbwyntio ar greu datrysiadau ymarferol i'r heriau a wynebir yn y maes cludiant addysg.

## 4. Rhaglen Waith ac Arbedion

### 4.1 Rhaglen Waith

4.1.1 Isod, cyflwynir rhaglen waith amlinellol sydd wedi ei llunio mwyn ymateb i sefyllfa gorwariant cludiant addysg ac mewn ymgais i geisio rhesymoli'r costau i'r dyfodol. Mae'r rhaglen waith amlinellol yma'n nodi'r hyn sydd wedi ei gyflawni dros y 6 mis diwethaf, gan gydnabod ei bod yn ddyddiau cynnar gan mai dyma'r union gyfnod y mae'r rhaglen hon a'r Rheolwr Cludiant Addysg wedi bod mewn lle:

| Rhaglen Waith Cludiant Addysg | Cynnydd Hyd Yma |
|---|---|
| Diweddaru'r Polisi Cludiant Addysg ac Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb | Mae drafft cychwynnol o'r Polisi Cludiant Addysg wedi ei lunio. Unwaith bydd y Polisi drafft wedi ei gwblhau, mae bwriad ymgynghori arno. Bydd y polisi hwn yn cyfarch y gofynion statudol yn yr un modd â'r polisi presennol. Ochr yn ochr a hynny, mae Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi ei lunio. |
| Adolygu cytundebau cludiant addysg presennol er mwyn canfod arbedion effeithlonrwydd | Mae hwn yn waith parhaus, a cheir enghreifftiau isod o'r hyn sydd eisoes wedi ei gyflawni (gweler 4.2) |
| Adnabod cynllun peilot cludiant addysg y byddai modd ei weithredu ar y cyd â Chanolfan Iaith | Cynllun peilot cychwynnol wedi ei weithredu'n rhannol y tymor hwn (gweler (4.2) |
| Adnabod cynllun peilot cludiant addysg y byddai modd ei weithredu ar y cyd ag ysgol arbennig | Trafodaethau cychwynnol wedi eu cynnal gydag Ysgol Hafod Lon a chyfleoedd posib wedi eu hadnabod, ond gwaith pellach i'w gyflawni gan anelu i gychwyn peilot yn Nhymor y Gwanwyn 2025. (gweler 4.2) |
| Ail-edrych ar drefniadau cludiant dysgwyr ADY | Y broses o ail-edrych ar yr amserlen ar gyfer adnabod anghenion cludiant dysgwyr ADY wedi cychwyn er sicrhau'r amodau gorau ar gyfer tendro'r ddarpariaeth er sicrhau gwerth am arian. |
| Ystyried fforddiadwyedd Cludiant Addysg Ôl-16 yn sgil diddymu'r Tocyn Teithio Ôl-16 | Trafodaethau cychwynnol wedi eu cynnal gyda Grŵp Llandrillo Menai. |
| Cerbydau Trydan Adnewyddadwy | Cais grant wedi ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru gan y Cyngor ar gyfer cymorth ariannol i brynu 2 fws mini trydan, fyddai'n cynnig cyfleoedd posib i allu darparu cludiant addysg mewn ffordd amgen. |

## 4.2 Arbedion

4.2.1 Adolygu Cytundebau Cludiant Addysg

4.2.2 Arbedion Dalgylch Ysgol Dyffryn Ogwen

Adolygwyd holl gytundebau cludiant addysg ar gyfer dalgylch Dyffryn Ogwen ac adnabuwyd o'r data mynediad ysgolion bod y niferoedd dysgwyr a oedd yn deilwng am gludiant wedi gostwng ar gyfer Medi 2024, fel y dengys y tabl isod:

| Rhif | Llwybr | Nifer (Medi 23) | Nifer (Medi 24) | Capasiti Bws Presennol |
|---|---|---|---|---|
| 450 | Mynydd Llandygai | 26 | **13** | 45 |
| 466 | Talybont/Llanllechid | 7 | **6** | 16 |
| 449 | Rhiwlas/Tregarth | 52 | 54 | 56 |

Yn sgil y niferoedd uchod, adnabuwyd cyfleoedd i wneud arbedion posib ar ddarpariaeth cludiant addysg yn yr ardal. Roedd modd cyflawni arbediad drwy ail-dendro cytundeb 466 fel cytundeb tacsi 8 sedd, ynghyd â chyfuno cytundeb a oedd eisoes yn gweithredu o ardal Llanllechid i Ysgol Dyffryn Ogwen. Trwy ddiweddu cytundeb 466 a lleihau capasiti 450 drwy ail-dendro, gwnaethpwyd arbediad blwyddyn o **£27k** ar gytundebau bysiau Ysgol Dyffryn Ogwen ar gyfer y cyfnod o Medi 2024 ymlaen, fel y dengys y tabl isod:

| Rhif | Llwybr | Cost Blynyddol **Medi 2023** | Cost Blynyddol **Medi 2024** |
|---|---|---|---|
| 450 | Mynydd Llandygai | £34,964.00 | £30,360.00 |
| 466 | Talybont/Llanllechid | £22,440.00 | £00,000.00 |
| YDO56 | Llanllechid – Ysgol Dyffryn Ogwen | £3,040.00 | £ 3,040.00 |
| | ***Cyfanswm Blynyddol*** | **£60,444.00** | **£33,400.00** |

4.2.3 Arbedion Dalgylch Dyffryn Nantlle

Adolygwyd holl gytundebau cludiant addysg dalgylch Ysgol Dyffryn Nantlle ac adnabuwyd o'r data mynediad ysgolion bod niferoedd dysgwyr a oedd yn deilwng am gludiant yn gostwng ar gyfer Medi 2024 ar y llwybr bws ysgol 300 ardal Nebo a Llanllyfni. O Fedi 2024, diddymwyd cytundeb bws ysgol 300 a chyfunwyd y ddau gytundeb gyda gwasanaeth 14. Gwnaethpwyd arbediad blynyddol o £29,600 o Fedi 2024 ymlaen.

| Rhif | Llwybr | Cost Blynyddol **Medi 2023** | Cost Blynyddol **Medi 2024** |
|---|---|---|---|
| 300 | Nebo/Llanllyfni i YDN | £29,600.00 | £00,000.00 |
| 14 | Capel Uchaf i YDN | £6,040.00 | £6,040.00 |
| | ***Cyfanswm Blynyddol*** | **£35,640.00** | **£6,040.00** |

Gweler yr amserlen gyfredol newydd isod:

| Tudweiliog - Trefor - Pwllheli | | | | | | 14 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Llun i Sadwrn** | | | | | | **Monday to Saturday** |
| Côd/Code: | SH | NS | Sch | Sch | MWF | NS |
| **Tudweiliog** | .... | 0715 | .... | .... | .... | 1748 |
| Edern | .... | 0722 | .... | .... | .... | 1753 |
| Morfa Nefyn | .... | 0725 | .... | .... | .... | 1756 |
| Nefyn | .... | 0728 | .... | .... | .... | 1800 |
| Pistyll | .... | 0733 | .... | .... | .... | 1805 |
| LLITHFAEN | .... | 0738 | .... | .... | .... | 1810 |
| Llanaelhaearn | .... | 0743 | .... | .... | .... | 1815 |
| TREFOR | .... | 0748 | 0755 | .... | .... | 1820 |
| Clynnog Fawr | .... | .... | 0800 | .... | 1110R | .... |
| Capel Uchaf | .... | .... | 0805 | .... | 1115R | .... |
| Tai'n Lon | .... | .... | 0810 | .... | 1120R | .... |
| Pant Glas | .... | .... | 0823 | .... | I | .... |
| Nazareth | .... | .... | 0825 | .... | I | .... |
| Nebo | .... | .... | 0830 | .... | I | .... |
| Llanllyfni | .... | .... | 0835 | .... | I | .... |
| Penygroes | .... | .... | 0837 | .... | I | .... |
| **Ysgol Dyffryn Nantlle** | .... | .... | 0840 | .... | I | .... |
| Clynnog Fawr | .... | .... | .... | .... | 1125R | .... |
| **TREFOR** | .... | .... | .... | .... | 1135 | .... |
| Llanaelhaearn | .... | .... | .... | .... | 1139 | .... |
| Pencaenewydd | 0816 | .... | .... | 0855 | 1144 | .... |
| Llangybi | 0821 | .... | .... | 0858 | 1148 | .... |
| Llanarmon | 0824 | .... | .... | 0902 | 1152 | .... |
| Chwilog | 0827 | .... | .... | 0906 | 1155 | .... |
| Y Ffôr | 0831 | .... | .... | I | 1203 | .... |
| Rhos-fawr | 0834 | .... | .... | I | 1205 | .... |
| Pwllheli, Ysbyty Bryn Beryl | I | .... | .... | I | 1207 | .... |
| **PWLLHELI**, Gorsaf Bws/Bus Station (C) | 0840 | .... | .... | 0920 | 1213 | .... |

4.2.4 <u>Cyfuno cludiant cyhoeddus a chludiant addysg</u>

Fel rhan o'r broses o adolygu niferoedd, adnabuwyd llwybr cludiant addysg arall yn nalgylch Dyffryn Nantlle, ble roedd niferoedd y dysgwyr a oedd yn deilwng am gludiant addysg wedi gostwng yn sylweddol. Roedd gwasanaeth bws cyhoeddus eisoes yn teithio ar lwybr tebyg, a chapasiti ar gael yn y cerbyd fyddai'n cwrdd â'r gofyn yng nghyd-destun cludiant addysg. Penderfynwyd diddymu'r cytundeb bws ysgol gan arbed y gost yma. Addaswyd llwybr teithio cludiant cyhoeddus er mwyn cludo'r dysgwyr o Medi 2024 ymlaen, gan wneud arbediad blynyddol o £30,000.00.

**4.2.5 Prosiectau Peilot**

4.2.6 <u>Prosiect Peilot Dalgylch Bangor Ogwen</u>

Er mwyn canfod rhagor o arbedion yn y maes cludiant addysg, edrychwyd ar gyfleoedd i wneud defnydd o gerbydau fflyd y Cyngor. Yn sicr gellid gwneud arbedion sylweddol wrth gyfuno cludiant sydd eisoes yn gweithredu, boed o fewn Addysg neu adrannau eraill. Wrth fapio'r ddarpariaeth bresennol yn nalgylchoedd Bangor a Dyffryn Ogwen, adnabuwyd cerbyd addas yng Nghanolfan Dydd Plas Hedd ym Maesgeirchen, Bangor. Lleolir y bws mini yn y ganolfan yma ai phwrpas yw i gasglu a chludo oedolion i'r Ganolfan Ddydd yn y bore a'u danfon adref yn y prynhawn, gyda'r gyrrwr yn gyflogedig gan yr awdurdod o dan ofal yr Adran Oedolion.

4.2.7 Edrychwyd ar y posibiliadau o ddefnyddio'r cerbyd yma i ddarparu cludiant addysg yn yr un ardal. Yn dilyn ymarferiad mapio manwl, adnabuwyd llwybr cludiant addas ar gyfer cludo dysgwyr i'r Uned Trochi Iaith ar safle Ysgol Tryfan, Bangor. Defnyddir cerbyd a gyrrwr y Ganolfan Ddydd i'r perwyl hwn, gan gasglu dysgwyr o'u cartrefi yn ardal Bethesda a Bangor yn y lle cyntaf a'u cludo i'r Uned Iaith. Yn dilyn hynny, cesglir yr oedolion o'u cartrefi a cludo hwythau i'r Ganolfan Ddydd. Gwneir yr un peth yn y prynhawn, gan gyfuno amserlenni er mwyn cael y gwerth gorau am arian.

4.2.8 Bu i'r peilot hwn arddangos y potensial amlwg sydd yna i dreialu prosiectau tebyg, gan wneud defnydd cyson ac ehangach o gerbydau fflyd y Cyngor. Gwnaethpwyd arbedion trwy weithredu'r cludiant yn uniongyrchol ein hunain fel Cyngor, gydag adrannau'n cyd-weithio ar yr amserlen er mwyn sicrhau'r defnydd mwyaf effeithlon o gerbyd y Cyngor, gan sicrhau gwasanaeth cludiant priodol i ddefnyddwyr ar yr un pryd.

4.2.9 <u>Prosiect Peilot Ysgolion</u>
Yn sgil y ffaith bod cludo dysgwyr i Ysgol Pendalar ac Ysgol Hafod Lon yn costio dros £1.5m y flwyddyn i'r Adran Addysg erbyn hyn gyda'r costau'n parhau i gynyddu, mae'n rhaid edrych a oes ffyrdd amgen o ddarparu cludiant i'n hysgolion arbennig. O ganlyniad, rydym yn gobeithio cydweithio ar brosiect cludiant newydd rhwng yr Adran Addysg, yr Uned Gludiant Integredig, swyddogion fflyd a swyddogion ynni, gyda'r bwriad y bydd gennym brosiect peilot gydag Ysgol Hafod Lon yn weithredol yn ystod Tymor y Gwanwyn 2025.

4.2.10 Rydym yn edrych yn benodol ar brosiect peilot fyddai'n golygu'r angen i fuddsoddi mewn cerbydau trydan fel man cychwyn, (ac mae grant cenedlaethol ar gael i leihau elfen o'r gost o gaffael cerbydau trydan). O fod yn llwyddiannus, byddai modd defnyddio'r cerbydau hyn i gludo dysgwyr i ac o Ysgol Hafod Lon yn ddyddiol, ynghyd â bod ar gael i ddarparu gwasanaethau cludo eraill yn yr ardal yn ystod y dydd.

4.2.11 <u>Effaith newidiadau Tocyn Teithio Ôl-16</u>
Mae cynnydd yn niferoedd y dysgwyr sydd yn mynychu'r colegau ôl-16, ac o ganlyniad mae'r galw am gludiant yn cynyddu sydd yn arwain at gostau ychwanegol i'r Adran Addysg. At hyn, mae'r buddsoddiad cyfalaf gan Grŵp Llandrillo Menai ar eu safleoedd wedi cynyddu capasiti y safleoedd hynny, ac yn sgil y buddsoddiad, bu newidiadau i safleoedd y coleg dros gyfnod gan arwain at yr angen i gludo nifer o ddysgwyr ar fysiau coleg penodol, gyda llai yn cael eu cludo ar drafnidiaeth cyhoeddus.

**5. ` Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

5.1 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ceisio gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd llesiant ar gyrff cyhoeddus ac wedi ei anelu at gyflawni 7 o nodau llesiant drwy ddilyn y 5 ffordd o weithio.

5.2 Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd lles ar y Cyngor i gynnal gwaith datblygu cynaliadwy drwy weithredu mewn cydweithrediad â'r 'egwyddor datblygu cynaliadwy'. Mae hyn yn golygu bod angen ystyried yr effaith ar bobl yn y dyfodol wrth wneud penderfyniadau.

5.3 O ran **cydweithio** a **chynnwys** eraill, rydym yn cydweithio yn draws-adrannol a gydag ysgolion i ganfod datrysiadau creadigol i resymoli'r costau ynghlwm â darparu cludiant addysg. Byddwn hefyd yn ymgynghori ar y Polisi Cludiant drafft yn Nhymor y Gwanwyn 2025.

5.4 O ran y tymor **hir** ac edrych i'r dyfodol, rydym eisoes yn ymwybodol o'r newidiadau mewn demograffeg sy'n wynebu'r Sir ac yn addasu a chynllunio darpariaeth cludiant addysg mewn ymateb i hynny er mwyn rhesymoli'r costau, gan sicrhau fforddiadwyedd y ddarpariaeth cludiant i'r dyfodol. Rydym hefyd yn y broses o ddiweddaru'r Polisi Cludiant Addysg fydd yn parhau i gyfarch gofynion statudol y Mesur, ond rydym hefyd yn gobeithio y bydd y Polisi diwygiedig yn cynnig rhagor o eglurder i ddefnyddwyr ar gyfer y blynyddoedd nesaf.

5.5 Er mwyn **atal** problemau rhag codi neu waethygu yn y dyfodol, byddwn yn parhau i gydweithio'n draws-adrannol a gydag ysgolion er mwyn sicrhau darpariaeth cludiant addysg fforddiadwy, gan adolygu a gwerthuso ein darpariaethau'n barhaus er mwyn atal problemau rhag codi neu waethygu yn y dyfodol.

## 6. Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg a'r Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol

6.1 Ochr yn ochr â diweddaru'r Polisi Cludiant Addysg rydym hefyd yn llunio Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, a bwriedir ymgynghori ar y Polisi Cludiant Addysg gan wahodd sylwadau ar yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar yr un pryd. Byddwn yn rhoi ystyriaeth i'r holl sylwadau a dderbynnir fel rhan o'r ymgynghoriad, ac yn addasu'r Polisi Cludiant Addysg a'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb fel sy'n briodol yn sgil y sylwadau a dderbynnir.

## 7. Camau Nesaf

7.1 Bydd yr Adolygiad Strategol i'r maes cludiant addysg yn parhau er mwyn ceisio rhesymoli'r costau ynghlwm â darparu cludiant i ddysgwyr. Dros y cyfnod nesaf, bwriedir symud ymlaen gyda'r canlynol:

- Ymgynghori ar y Polisi Cludiant Addysg
- Adolygu Cytundebau Cludiant Addysg er mwyn canfod rhagor o arbedion (parhaus)
- Adnabod a gweithredu cynlluniau peilot er mwyn lleihau costau ynghlwm â darparu cludiant addysg (parhaus)
- Trosglwyddo cynlluniau peilot llwyddiannus yn drefniadau cludiant parhaol
- Ystyried cyfleoedd i resymoli'r costau ynghlwm â'r Tocyn Teithio Ôl-16

**ATODIAD 1**

1) A yw'r Adran Addysg wedi ystyried sefydlu fflyd ei hun a'r gost o wneud hyn?

*Yn dilyn peilot llwyddiannus yn ystod Tymor Yr Hydref eleni, lle treialwyd y defnydd o gerbyd fflyd i'r pwrpas o gludiant addysg gyfochrog a chludiant oedolion, bydd yr adran addysg yn ymchwilio ymhellach ac yn peilota cludiant addysg mewn rhai ardaloedd. Rhydd hyn gyfle i gyfrifo costau ac i fapio posibiliadau at y dyfodol.*

2) Pa hawliau sydd gan yr awdurdod a'r darparwyr cludiant i ddod a cytundebau i ben?

Mae amodau o fewn y cytundebau cludiant yn galluogi'r awdurdod a'r darparwr i ddod a cytundebau cludiant i ben. Mae'r amodau'n amrywio yn ddibynnol ar y cytundeb.

3) Pa fath o hyfforddiant sy'n cael ei ddarparu i yrwyr tacsi ac i bobl sy'n hebrwng plant, yn enwedig mewn perthynas ag ysgolion arbennig?

*Darperir hyfforddiant ar ddiogelu plant trwy gyfrwng e-fodiwlau pan gwneir cais am fathodyn gyrrwr, ceir tystysgrif ar ôl cwblhau yr hyfforddiant fel tystiolaeth. Bydd angen adnewyddu'r dystysgrif bob 3 mlynedd yn gyfochrog ac adnewyddu'r bathodyn gyrrwr.*

4) Beth yw'r trefniadau DBS ynglŷn â chludwyr addysg?

*Mewn perthynas a gyrwyr tacsis yr awdurdod, mae'r canlynol mewn grym:*
*"Diweddaru trwydded gyrrwr bob 3 mlynedd felly diweddaru DBS yr un pryd. Yn ogystal bydd tystysgrif prawf meddygol yn angenrheidiol. Cedwir cofnod ar fasdata yr adran drwyddedu tacsis, a bydd rhybudd/llythyr yn cael ei anfon allan mewn da bryd er mwyn atgoffa bod angen diweddaru.*

*Mewn perthynas a gyrwyr bysus yr awdurdod, mae'r canlynol mewn grym:*
*"Diweddaru tystysgrif DBS bob 3 mlynedd. Cedwir cofnod o'r data ar daenlen yn yr adran gludiant.*

*Mewn perthynas a gyrwyr hebryngydd teithio yr awdurdod, mae'r canlynol mewn grym:*
*"Diweddaru tystysgrif DBS bob 3 mlynedd. Diweddaru tystysgrif Cymorth Cyntaf yr un pryd. Cedwir cofnod o'r data ar daenlen yn yr adran gludiant.*

5) Beth yn union yw'r rheolau ynglŷn â thrafnidiaeth am ddim?

*Mae’r Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 (y Mesur) yn nodi'r fframwaith cyfreithiol sy'n benodol berthnasol i ddarpariaethau teithio a thrafnidiaeth ar gyfer dysgwyr sy'n teithio o'r cartref i'r ysgol yng Nghymru; gyda 'Darpariaeth Statudol a Chanllawiau Gweithredol' (Y Canllawiau) a gyhoeddwyd yn 2014.*
*Mae'r Mesur yn nodi bod yn rhaid i awdurdodau lleol*

- *Darparu cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol i ddysgwyr o oedran ysgol gorfodol sy'n mynychu ysgol gynradd sy'n byw dwy filltir ymhellach o'r ysgol addas agosaf;*
- *Darparu cludiant o’r cartref i’r ysgol am ddim i ddysgwyr o oedran ysgol gorfodol sy’n mynychu ysgol uwchradd sy'n byw tair milltir ymhellach o'r ysgol addas agosaf.*

6) A oes unrhyw fwriad i adolygu'r pellter cymhwyso ar gyfer cludiant am ddim?

Byddwn yn adolygu y pellteroedd cymhwyso wrth adolygu’r polisi cludiant, ac yn dilyn arweiniad yn y gofynion statudol wrth wneud hynny.

7) A yw’r Polisi Cludiant yn mynd y tu hwnt i’r gofyn cyfreithiol?

Yn ychwanegol at yr hyn a nodir yn y gofynion statudol, mae’r awdurdod yn cynnig seddi gweigion fel rhan o’r cynllun seddi gwag sydd yn cynhyrchu incwm ychwanegol ac yn hwyluso cludiant i rai dysgwyr. Rhoddir Tocyn Teithio Ôl-16 am ddim i gludo dysgwyr i’r ysgol neu’r coleg er nad oes dyletswydd statudol ar y Cyngor i wneud hynny.

8) Sut mae polisïau a gorwariant cludiant addysg Gwynedd yn cymharu gydag awdurdodau eraill?

Mae trafodaethau cenedlaethol diweddar yn awgrymu fod awdurdodau ar draws Cymru’n wynebu’r un heriau parthed cynnydd mewn costau cludiant addysg, ac mae’r darlun yn debyg iawn ar draws siroedd gwledig Cymru sydd â heriau daearyddol tebyg i Wynedd.

9) Beth yw'r trefniadau pan mae ysgol yn cau? A oes ymgais yn cael ei wneud i sicrhau bod plant yn mynd i'r ysgol agosaf?

Mae dynodi ysgol amgen ar gyfer sefyllfa pan fo ysgol yn cau yn rhan o’r broses o adolygu dyfodol ysgol. Mae costau cludiant yn rhan o’r ystyriaethau, ac mae arbedion refeniw a geir o gau ysgol yn cyfrannu at gynnydd mewn unrhyw gostau cludiant yn sgil y broses gau

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI |
| **DYDDIAD** | 12 Rhagfyr 2024 |
| **TEITL** | Blaenraglen Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD** | Mabwysiadu rhaglen waith diwygiedig ar gyfer 2024/25 |
| **AWDUR** | Bethan Adams, Ymgynghorydd Craffu |

1. Mabwysiadwyd Blaenraglen ar gyfer 2024/25 yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 18 Gorffennaf 2024.

2. Roedd yr eitem ‘Cyfundrefn Addysg Drochi’ wedi ei raglennu i’w drafod yn y cyfarfod yma.

3. Derbyniwyd cais gan yr Adran Addysg i lithro’r eitem i gyfarfod 13 Chwefror 2025. Cynhelir gwerthusiad o’r gyfundrefn addysg drochi yn ystod y tymor ysgol hwn. Mae’r Adran Addysg yn cydweithio gydag Adran Addysg Prifysgol Bangor i gynnal y gwerthusiad. Rhagwelir y derbynnir adroddiad drafft o’r canfyddiadau ac unrhyw argymhellion yn y flwyddyn newydd.

4. Yn dilyn ymgynghori gyda’r Cadeirydd, cytunwyd i’r cais i lithro’r eitem er mwyn sicrhau bod yr eitem yn cael ei graffu’n amserol i alluogi craffu i ychwanegu gwerth.

5. Gweler ynghlwm fel atodiad i’r adroddiad, rhaglen waith diwygiedig ar gyfer 2024/25.

6. **Gofynnir i’r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi fabwysiadu rhaglen waith diwygiedig ar gyfer 2024/25.**

ATODIAD

## BLAENRAGLEN PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI 2024/25

| Dyddiad | Eitemau | Rheswm dros graffu |
|---|---|---|
| **18/7/24** | • Adroddiad Blynyddol GwE | Eitem Blynyddol / Sicrwydd |
| | • Adolygiad Haen Ganol – Gwasanaeth Gwella Ysgolion | Mewnbwn i'r cyfeiriad ar gyfer y dyfodol |
| | • Trefniadau Diogelu mewn ysgolion | Sicrwydd o ran y trefniadau |
| | • Cynllun Economi Ymweld Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri 2035 | Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Lewyrchus |
| **17/10/24** | • Adroddiad cynnydd ar ymateb i argymhellion Estyn | Adroddiad Archwiliwr Allanol |
| | • Trawsnewid addysg ar gyfer plant yn eu blynyddoedd cynnar | Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Yfory |
| | • Strategaeth Llesiant Staff | Craffu cefnogaeth llesiant staff |
| **12/12/24** | • Cyllidebau Refeniw Ysgolion | Effaith ar ysgolion Gwynedd |
| | • Cludiant Addysg | Gorwariant yn y maes |
| **13/2/25** | • Cynllun Economi Gwynedd | Cynllun Strategol |
| | • Polisi Iaith Addysg | Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Gymraeg |
| | • Cyfundrefn Addysg Drochi | Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Gymraeg |
| **10/4/25** | • Gwasanaeth Ieuenctid | Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Yfory |
| | • Anghenion Dysgu Ychwanegol yn y prif lif ac Ysgolion Arbennig | Craffu'r ddarpariaeth addysg anghenion dysgu ychwanegol |

**Eitem wrth gefn** - Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru